

# Adroddiad Blynyddol Rheoli Perfformiadd Corfforaethol 2022/23

Perfformiad yn erbyn Targed - Crynodeb Cyffredinol ar gyfer y Cyngor
2022/2023




Perfformiad corfforaethol o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2022/2023




**ALLWEDD:**

**Perfformiad yn erbyn y targed:**

| | |
|---|---|
| GWYRDD | Wedi bodloni neu ragori ar y targed |
| OREN | Wedi methu'r targed (o lai na 5%) |
| COCH | Wedi methu'r targed (o lai na 5%) |
| Dim COG | Ni osodwyd targed |

**Perfformiad o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol:**

| | |
|---|---|
| GWELLA | Perfformiad gwell |
| SEFYDLOG | Perfformiad yr un fath |
| DIRYWIO | Perfformiad gwaeth |
| DIM TUEDD | Dangosydd newydd – Dim cymhariaeth hanesyddol |

# Diogelu 17-22

Mae perfformiad diogelu mewn perthynas â'r gwasanaethau plant yn parhau'n gadarn er gwaethaf heriau systemig sy'n gysylltiedig â gallu a gwytnwch gweithlu sy'n annigonol (yn enwedig y prinder cenedlaethol dybryd o weithwyr cymdeithasol yn y gwasanaethau plant) a chymhlethdod cynyddol plant a theuluoedd a chanddynt anghenion sy'n deillio o effaith gymdeithasol COVID ac yna'r argyfwng costau byw ar ben hyn i gyd.

Roeddem bob amser yn rhagweld y byddai cynnydd yn nifer y plant y byddai angen iddynt dderbyn gofal gan fod teuluoedd wedi gorfod wynebu pwysau cynyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd hwnnw'n amlwg ar draws Cymru (yn enwedig mewn ardaloedd trefol) ond hyd yma mae'n llai amlwg yn Abertawe. Mae hynny'n dangos bod ein buddsoddiad mewn ystod o ddulliau a gwasanaethau cymorth cynnar yn parhau i sicrhau cefnogaeth effeithiol ac wedi'i thargedu ar draws y continwwm angen.

Rydym yn wynebu cynnydd mewn risg i'r glasoed sy'n gysylltiedig â chamfanteisio y tu allan i'r cartref teuluol ond unwaith eto, mae ein hymagwedd ragweithiol at ddiogelu cyd-destunol trwy ddatblygu ein tîm CMET (Coll, Camfanteisio a Masnachu Cyd-destunol) yn helpu i liniaru'r risgiau hynny.

Mae gwytnwch y gweithlu yn her benodol ond mae buddsoddi mewn staff amgen, ynghyd â datblygu academi gwaith cymdeithasol a mwy o nawdd i staff ymgymryd â gradd gwaith cymdeithasol y Brifysgol Agored fel rhan o strategaeth lles gyffredinol ar gyfer y gweithlu yn helpu i gynnal nifer y staff ac adnoddau yn y tymor byr ac yn caniatáu rhywfaint o optimistiaeth y byddwn yn gallu meithrin mwy o wytnwch dros y blynyddoedd nesaf.

Mae sicrhau digonolrwydd lleoliadau (cael digon o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) yn parhau i fod yn risg sylweddol gan fod darparwyr annibynnol yn gadael Cymru (yn dilyn ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw) yn gyflymach nag y gallwn ni greu gallu ychwanegol mewnol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn eu lle, yn enwedig pan fo angen elfen iechyd ac addysgol arbenigol ar y gallu hwnnw.

Ar ôl tair blynedd hir, cafwyd rhywfaint o welliant sylweddol mewn gallu (staff ac adnoddau) yn y maes gofal cymdeithasol ar draws y gwasanaethau i oedolion yn y chwarter diwethaf hwn. Mae rhestrau aros am ofal cartref bellach yn is na'r lefelau cyn COVID, ar ôl cyrraedd 300% yn uwch nag unrhyw beth rydym erioed wedi'i brofi yn Abertawe. Mae'n ymddangos bod hyn o ganlyniad i ymdrechion ar y cyd mewn sawl maes. Buddsoddi mewn gallu gofal cartref mewnol o ran ailalluogi a gofal tymor hir; gwaith helaeth gyda darparwyr a gomisiynwyd i roi cynnig ar fodelau newydd; gweithio gyda chydweithwyr yn y trydydd sector ar sefydlu mwy o ficro-fentrau; cynnig ailalluogi gwella lle darperir gwelyau a buddsoddiad mewn ymagweddau gwahanol at daliadau uniongyrchol i ofalwyr a'r rheini sy'n derbyn gofal.


Er gwaethaf y gwelliant hwnnw, mae'r breuder yn y gwasanaethau iechyd yn parhau'n sylweddol ac o ganlyniad mae unigolion sy'n dod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol yn fwyfwy bregus a chanddynt lefel llawer uwch o angen nag y byddem wedi gallu ei chefnogi'n hanesyddol.

Bydd yn fwyfwy anodd i'r cyngor gefnogi mwy a mwy o unigolion sydd â lefelau angen mwy fyth (yn enwedig anghenion iechyd arbenigol) heb fod byrddau iechyd yn newid ffocws yn sylweddol ac yn buddsoddi mewn modelau integredig o wasanaeth cymunedol.

Mae'n ymddangos bod bwriad polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen hwn am newid ffocws a buddsoddiad ond mae wedi'i osod yn erbyn amlen ariannol gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol sydd o bosib yn is; mae risgiau o ran cynaliadwyedd a gallu gwasanaethau yn real iawn ac felly mae'n ddigon posib y bydd risgiau i'r mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn cynyddu dros amser.


Perfformiad yn erbyn Targed

2022/2023




Perfformiad o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol


2022/2023




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| AD011e ⇧<br>Canran yr arosiadau ailalluogi preswyl a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle cafodd yr angen am gymorth ei liniaru neu ei leihau<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adradd llawn | COG | | | GWYRDD | Mae'r ganran yn parhau i fod yn uwch na'r targed. Mae'r ganran wedi gostwng ychydig ers y llynedd ond mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gyffredinol. |
| | Canlyniad | | | 70.9% | |
| | Targed | | | 60.00% | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 139 | |
| | Enw. | | | 196 | |
| AD011f ⇧<br>Canran y pecynnau gofal ail-alluogi cymunedol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle cafodd yr angen am gymorth ei liniaru neu ei leihau<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adradd llawn | COG | | | COCH | Rydym wedi gweld gostyngiad ym mhotensial ail-alluogi tymor byr unigolion sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth sydd wedi arwain at ddirywiad yn y ganran gyffredinol. |
| | Canlyniad | | | 53.99% | |
| | Targed | | | 60.00% | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 203 | |
| | Enw. | | | 376 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| AD017i ⇧<br>Canran y cynlluniau Gofal a Chefnogaeth a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Dim data | COG | | | | Does dim data ar gyfer y cyfnod hwn oherwydd newid yn y diffiniad metrig hwn gan Lywodraeth Cymru yng nghanol y flwyddyn |
| | Canlyniad | | | | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | | |
| | Rhif. | | | | |
| | Enw. | | | | |
| AD024i ⇧<br>Canran yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad o gam-drin honedig.<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adradd llawn | COG | | | GWYRDD | Ffigurau dros dro. Cânt eu diweddaru pan fydd Adroddiad Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno |
| | Canlyniad | | | 82.5% | |
| | Targed | | | 70.00% | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 449 | |
| | Enw. | | | 544 | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS13b ⇧<br>Canran y gofalwyr a nodwyd sydd wedi cael cynnig asesiad ar adeg asesu'r 'sawl sy'n cael gofal'<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adradd llawn | COG | | | OREN | Ni chyflwynwyd unrhyw sylw |
| | Canlyniad | | | 87.1% | |
| | Targed | | | 90.00% | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 1637 | |
| | Enw. | | | 1879 | |
| CFS14a ⇧<br>Canran y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y cyfnod pan wnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adradd llawn | COG | | | COCH | Mae'r rhifau a gofnodir yma ar gyfer y 4ydd Chwarter terfynol. O fewn Ch4, gwnaed 94% o'r penderfyniadau o fewn 1 diwrnod gwaith. Yn ymarferol, mae hyn yn rhif cadarnhaol, dylid nodi, o ystyried mai gwasanaeth sy'n cael ei yrru gan alw yw hwn, nid yw'r targed o 100% yn debygol o fod yn gyraeddadwy. |
| | Canlyniad | | | 94.12% | |
| | Targed | | | 100.00% | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 1746 | |
| | Enw. | | | 1855 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS18a ⇩<br>Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal (PDG) fesul 10 000 o boblogaeth 0-17 oed Abertawe ar ddiwedd y cyfnod (ac eithrio ceiswyr lloches)<br><br>DIM GRAFF AR GAEL<br>Blwyddyn gyntaf o adradd llawn | COG | | | GWYRDD | Data dros dro. Mae'r boblogaeth PDG wedi cynyddu ers diwedd y chwarter blaenorol (469 - Rhagfyr 2022) i 477 (+1.70%). Cyn cael y data hyn, roeddem yn gweld tuedd am i lawr yn ein poblogaeth PDG. Dros y flwyddyn, roedd y niferoedd a oedd yn dechrau derbyn gofal yn amrywio o 30-34 y chwarter (cymharol gyson), tra oedd y nifer a oedd yn stopio derbyn gofal yn amrywio o 25-47 y chwarter. Mae cyfanswm cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn sylweddol is o'i gymharu â'r llynedd a'r blynyddoedd blaenorol. |
| | Canlyniad | | | 104.27 | |
| | Targed | | | 110 | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 477 | |
| | Enw. | | | 45746 | |
| CFS19a ⇧<br>Canran yr ymweliadau a phlant ar y Gofrestr Amddyfin Plant (CAP) nad oedd yn hwyr<br> | COG | | | COCH | Mae gostyngiad sylweddol yn y perfformiad ar ddiwedd y chwarter (82.16%) o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (91.38%) - gyda tharged o 90%. Mae'n debygol bod y gostyngiad yn gysylltiedig â'r heriau staffio parhaus o beidio â gallu recriwtio niferoedd digonol o weithwyr cymdeithasol cymwys. |
| | Canlyniad | 88.19% | 91.75% | 82.16% | |
| | Targed | | | 90.00% | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 224 | 189 | 175 | |
| | Enw. | 254 | 206 | 213 | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS24 ⇩ Cyfanswm nifer y plant sydd a chynllun gofal a chefnogaeth ar diwedd y cyffnod | COG | | | GWYRDD | Bu cynnydd bach yn nifer y plant a phobl ifanc a gefnogir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Ch3 1192 / C4 1204 - er yr adroddwyd am duedd am i lawr ers peth amser, bu cynnydd misol ers mis Ionawr 2023. Fodd bynnag, mae'r nifer presennol o fewn ein hamrediad targed (1100-1400) |
| | Canlyniad | 1303 | 1254 | 1204 | |
| | Targed | | | 1400 | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1303 | 1254 | 1204 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS25 ⇩ Nifer y plant/bobl ifanc a gefnogir gan yr Hybiau Cymorth Cynnar ar ddiwedd y cyfnod. | COG | | | COCH | Data dros dro. Mae ein gwaith ataliol wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf ac, yn gadarnhaol, roeddem wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant y bu'n rhaid ymwneud â hwy yn statudol hyd at fis Ionawr 2023. Mae rhestrau aros y Canolfannau Cymorth Cynnar yn uwch na'r arfer. Mae hyn yn cael ei archwilio i weld a oes unrhyw gydberthynas â'r cynnydd hwn. |
| | Canlyniad | | 1034 | 1209 | |
| | Targed | | | 900 | |
| | Tuedd | | Dim Data | DIRYWIO | |
| | Rhif. | | 1034 | 1209 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CH026 ⇩ Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) yr awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod. | COG | | | OREN | Data dros dro. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y CAP - mae'r gostyngiad yn deillio o nifer uchel o ddadgofrestriadau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth (60 o blant), gyda llai o gofrestriadau yn ystod yr un cyfnod (42 o blant). Erys y boblogaeth o fewn ein hamrediad targed (160-200). |
| | Canlyniad | | 200 | 203 | |
| | Targed | | | 200 | |
| | Tuedd | | Dim Data | FEWN 5% | |
| | Rhif. | | 200 | 203 | |
| | Enw. | | | | |



Mae'r data presenoldeb blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022 yn dangos gostyngiad sydyn o'u cymharu â lefelau cyn y pandemig. Mae lefelau presenoldeb yn gwella'n araf ac yn nhymor y gwanwyn 2023 cafwyd cynnydd ynddynt o'i gymharu â'r tri thymor blaenorol. Mae effaith salwch a ffactorau eraill yn dal i effeithio ar bresenoldeb o'i gymharu ag amseroedd cyn y pandemig.

Presenoldeb cyffredinol ysgolion Abertawe ar gyfer plant 5 i 16 oed yw'r 7fed gorau o'r 22 awdurdod lleol ym mlwyddyn academaidd 2022-23 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn a 0.4 pwynt canran yn uwch na ffigur Cymru gyfan yn ystod cyfnod adrodd y trydydd chwarter, gostyngiad bach yn genedlaethol o'r chwarter blaenorol.

Mae'n ymddangos bod lefelau presenoldeb ysgolion mewn cyd-destunau heriol yn dal i fod yn is o'u cymharu ag ysgolion mewn ardaloedd llai difreintiedig yn Abertawe, er bod eu lefelau presenoldeb wedi gwella gyda lefelau presenoldeb pedair ysgol gynradd yn parhau i fod yn is nag 88% yn ystod y cyfnod adrodd hwn, o'u cymharu â deg yn y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd presenoldeb mewn oddeutu un rhan o bump o'r holl ysgolion cynradd islaw 90% yn y cyfnod adrodd hwn, o'i gymharu â thua thraean yn y cyfnod adrodd blaenorol.

Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd bresenoldeb dan 90% yn ystod y cyfnod adrodd er bod gwelliant bach o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol.

Roedd presenoldeb yn yr uned cyfeirio disgyblion (UCD) yn parhau i fod yn is na 60% yn ystod tymor y gwanwyn.


Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i hyrwyddo a chefnogi presenoldeb da, ac fe'i rhannwyd â'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg a Sgiliau ochr yn ochr â thrafodaeth gyda phenaethiaid am strategaethau i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd. Bydd polisi newydd yn cael ei gwblhau yn ystod tymor yr haf.

Mae nifer y dysgwyr sy'n cael eu gwahardd yn barhaol wedi gostwng o'i gymharu â'r un cyfnod adrodd, y llynedd. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau'n uchel. Datblygwyd Strategaeth Cynhwysiad newydd a bydd yn cael ei rhannu â'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn cynnwys dewisiadau amgen yn lle gwaharddiadau tymor penodol, er mwyn cefnogi dysgwyr i barhau i ymwneud ag addysg.

Nid yw mesurau cyrhaeddiad ar draws awdurdodau yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn cael eu casglu mwyach gan Lywodraeth Cymru. Yng nghyfnodau allweddol 4 a grwpiau blwyddyn Safon Uwch, gwelwyd perfformiad a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Abertawe ar ôl y dychweliad i arholiadau a ddilyswyd yn allanol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data awdurdodau lleol cyfanredol i wneud cymariaethau ag awdurdodau lleol eraill.


Perfformiad yn erbyn Targed

2022/2023





Perfformiad o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol


2022/2023





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBMA4 ⇧ Prentisiaethau - nifer y prentisiaethau neu hyfforddeion a ddechreuodd yn y cyngor | COG | | | GWYRDD | Rhagorwyd ar y targed DP blynyddol ar gyfer 23/24. |
| | Canlyniad | 38 | 30 | 66 | |
| | Targed | | | 25 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 38 | 30 | 66 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDCP18d ⇩ Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) | COG | | | | Y ffigwr cenedlaethol yw 2.1%. Mae Strategaeth Dylunio Cyrchfannau wedi'i chynnwys fel cam yn y Cynllun Corfforaethol newydd i gefnogi dysgu galwedigaethol, cydweithredu o ran y cwricwlwm ôl-16, gyrfaoedd ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith i gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i'w cam nesaf o addysg orfodol. Mae ymgynghoriad wedi cychwyn ar ddewisiadau ôl-16 ac mae strategaethau ôl-16 a galwedigaethol newydd wedi'u datblygu. |
| | Canlyniad | 1.53% | 1.62% | 1.9% | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 37 | 39 | 47 | |
| | Enw. | 2426 | 2410 | 2468 | |






| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU008c ⇩<br>Nifer y gwaharddiadau parhaol ar gyfer ysgolion uwchradd | COG | | | | Mae lefel y gwaharddiadau oherwydd amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys heriau ar ôl y cyfnod clo sy'n cael eu hadlewyrchu'n genedlaethol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cefnogi ysgolion i leihau gwaharddiadau parhaol gan gynnwys diplomâu ysgolion sy'n ystyriol o drawma, amserlenni pwrpasol a symudiadau a reolir. Nod manylion newydd y Strategaeth Cynhwysiad yw hyrwyddo cynhwysiad. Cynyddwyd adnoddau'r tîm cynhwysiad i gefnogi ysgolion ac adolygu cyfleoedd cyfoethogi i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o golli addysg. |
| | Canlyniad | 17 | 17 | 23 | |
|  | Targed | | | | |
| | Tuedd | GWELLA | SEFYDLOG | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 17. | 17 | 23 | |
| | Enw. | | | | |
| EDU010c ⇩<br>Cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol fesul 1000 o ddisgyblion ar gyfer ysgolion uwchradd | COG | | | | Fel rhan o'r Strategaeth Cynhwysiad, fel gyda gwaharddiadau parhaol, mae dewisiadau amgen i waharddiadau tymor penodol yn cael eu harchwilio i gefnogi dysgwyr i barhau i ymwneud ag addysg. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol sy'n cefnogi'r cynnig cwricwlwm. |
| | Canlyniad | 16.67 | 38.27 | 104.42 | |
|  | Targed | | | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 236 | 540 | 1344 | |
| | Enw. | 14160 | 14112 | 12871 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU016a ⇧<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | COG | | | | Mae ystod o ffactorau yn dal i effeithio ar lefelau presenoldeb yn lleol ac yn genedlaethol. Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth ac fe'i cynhwysir fel maes ffocws allweddol yn Strategaeth Cynhwysiad 2022-2027. Datblygwyd cynllun gweithredu i edrych ar ffyrdd newydd o gefnogi presenoldeb a'i rannu â'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg, sy'n cynnwys datblygu polisi presenoldeb newydd ar gyfer Abertawe. |
| | Canlyniad | Dim Data | Dim Data | 91.17% | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 2867505 | |
| | Enw. | | | 3145127 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU016b ⇧<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | COG | | | | Mae ystod o ffactorau yn dal i effeithio ar lefelau presenoldeb yn lleol ac yn genedlaethol. Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth ac fe'i cynhwysir fel maes ffocws allweddol yn Strategaeth Cynhwysiad 2022-2027. Datblygwyd cynllun gweithredu i edrych ar ffyrdd newydd o gefnogi presenoldeb a'i rannu â'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg, sy'n cynnwys datblygu polisi presenoldeb newydd ar gyfer Abertawe. |
| | Canlyniad | Dim Data | Dim Data | 88.74% | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | | | Dim Data | |
| | Rhif. | | | 2009886 | |
| | Enw. | | | 2264883 | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| PAM034 ⇧<br>Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) | COG | | | | |
| | Canlyniad | 10.72% | 11.86% | 12.89% | |
|  | Targed | | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 263 | 292 | 323 | |
| | Enw. | 2453 | 2462 | 2505 | |
| POV07 ⇧<br>Nifer yr wythnosau o hyfforddiant i weithwyr newydd a gyflawnwyd drwy'r cymalau budd cymunedol | COG | | | GWYRDD | Rhagorwyd ar y targed recriwtio a dargedir ac wythnosau hyfforddi ar gyfer 23/24. |
| | Canlyniad | 6380 | 7839 | 4034 | |
|  | Targed | | | 3000 | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 6380 | 7839 | 4034 | |
| | Enw. | | | | |

Mae adolygiad o'r gyfres o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn dangos bod y mwyafrif wedi cyrraedd y targedau priodol. Lle bo dangosyddion yn dangos tueddiadau ar i lawr o'u cymharu â chanlyniadau ar gyfer y llynedd, neu yn erbyn y cyfnod monitro diwethaf, darparwyd sylwadau esboniadol yn seiliedig ar yr amgylchiadau penodol sy'n bodoli. Fel yr adroddwyd drwy gydol y flwyddyn, mae effeithiau chwyddiant prisiau cost ar y sector adeiladu'n parhau i gael effaith ar y modd rydym yn cyflwyno rhaglenni adfywio. Mae prinder llafur medrus a difedr, ynghyd â materion cyflenwi ar gyfer rhai deunyddiau adeiladu wedi parhau i effeithio ar gostau rhaglenni ac adeiladu.

Mae cyflawni cynllun buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi dechrau gyda rhaglen cyllid galwad agored gyffredinol gwerth £8m, sy'n gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno cynlluniau sy'n unol â themâu allweddol y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cymunedau trefol a gwledig, a chefnogi busnesau bach. Ni fydd ceisiadau cyllid yn dyblygu'r prosiectau angori canlynol y mae'r cyngor eisoes wedi'u cyhoeddi fel rhan o becyn ariannu cyffredinol, sy'n werth £38.4m i'r ddinas.

Y prosiectau angori yw:

1. Pecyn o gynlluniau i gefnogi busnesau Abertawe gan gynnwys grantiau cychwyn busnes, grantiau twf, grantiau lleihau carbon, hyfforddiant i fusnesau symud tuag at garbon sero net, a chronfa datblygu eiddo masnachol.
2. Prosiect cyflogadwyedd llwybrau at waith a fydd yn cynnwys cymorth i bobl sy'n economaidd anweithgar a'r di-waith tymor hir sy'n 16 oed neu'n h?n, lleoliadau gwaith â thâl a chyllid grant galwad agored gwerth £2m am gefnogaeth cyflogadwyedd arbenigol.
3. Trawsnewid lleoedd ledled y sir, gyda phrosiectau wedi'u clustnodi i gynnwys cyllid grant ar gyfer adeileddau hanesyddol, gwelliannau i bentrefi a chanolau trefi bach, a gweithgareddau a llwybrau adfywio dan arweiniad treftadaeth.
4. Prosiect angori diwylliant a thwristiaeth a fydd yn cynnwys datblygu rhwydwaith creadigol, sgiliau digidol a chefnogaeth i fusnesau yn y sector hwnnw.
5. Prosiect cefnogi cymunedau a fydd yn darparu cyllid grant ar gyfer prosiectau cymunedol a'r trydydd sector.
6. Rhoi hwb i ardaloedd gwledig drwy ddarparu cyllid ar gyfer datblygu cymunedol gwledig, gweithgareddau ar thema newid yn yr hinsawdd a chymorth i fusnesau gwledig.

Mae'r gwaith o gyflawni camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe hefyd yn parhau, gan ddefnyddio cyllid o'r Gronfa Adferiad Economaidd. Mae'r cynllun gweithredu, a baratowyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys amrywiaeth o fentrau i ysgogi gweithgarwch economaidd a chadernid yn economi leol Abertawe. Yn ogystal, mae gwaith wedi dechrau yn awr ar Gynllun Cyflawni Economaidd Lleol ar gyfer Abertawe. Cynhaliwyd gweithdy gyda phartneriaid a chyflwynir strategaeth ddrafft i'r Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwnaeth y cyngor gais llwyddiannus am £20m o gyllid Codi'r Gwastad gan Lywodraeth y DU ar gyfer prosiect mawr newydd a fydd yn gwella rhannau o Waith Copr yr Hafod-Morfa, Y Strand ac Amgueddfa Abertawe, a bydd yn werth £9.4m y flwyddyn yn fras i economi'r ddinas. Disgwylir i brosiect gwella Cwm Tawe Isaf greu 69 o swyddi newydd hefyd wrth helpu i gynnal mwy na 100 o swyddi presennol.

Mae'r prosiect, y bwriedir iddo ddathlu treftadaeth ddiwydiannol Abertawe, yn cynnwys:

o Adfer hen adeilad y labordy yn y gwaith copr i greu lleoedd bwyta a bwyd a diod. Bydd buddsoddiad ym mheiriandai Musgrave a Vivian yn arwain at adeiladu lle caeedig newydd i greu atyniad treftadaeth i ymwelwyr a chaffi. Bydd y trac a'r locomotif yn sied V & S hefyd yn cael eu hadfer, bydd marchnadle'n cael ei chreu yn hen adeilad y Felin Rolio, a bydd mannau cyhoeddus tirluniedig yn cael eu cyflwyno ar y safle i ymwelwyr.

o Gosod dau bont?n ar hyd afon Tawe, a chreu unedau manwerthu bach ar gyfer masnachwyr lleol yn y bwâu Fictoraidd ar Y Strand. Gosodir lifft o'r Strand i'r Stryd Fawr a chaiff gwaith ei wneud i wella golwg a naws Y Strand yn agos i'w fwâu a'i dwneli. Bydd podiau manwerthu a gwell goleuadau yn cael eu gosod yn y twneli.

o Estyniad newydd yn Amgueddfa Abertawe - a ddethlir yn eang fel yr amgueddfa hynaf yng Nghymru - i greu mwy o leoedd arddangos, dysgu ac oriel a dod â rhannau o'r casgliadau sydd wedi'u storio yn y Felin Rolio ar safle'r gwaith copr i leoliad cyhoeddus i'w harddangos. Mae cynlluniau amlinellol yn cynnwys syniadau ar gyfer ardaloedd cadwraeth a chasglu ynghyd â mannau addysg, dysgu a chaffis a allai hefyd greu gwell cysylltiadau â'r man agored y tu ôl i Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gerllaw.

Mae'r cynnydd ym Mae Copr wedi parhau. Mae mwy na 200,000 o ymwelwyr wedi ymweld ag Arena Abertawe ers iddi agor gyntaf i'r cyhoedd flwyddyn yn ôl. Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau prawf yn yr arena sydd â lle i 3,500 o bobl, John Bishop oedd y seren gyntaf i ymddangos ar y llwyfan yn y lleoliad newydd ar 15 Mawrth y llynedd. Mae perfformiadau mawr eraill wedi'i ddilyn, gan gynnwys Jersey Boys, Alice Cooper and The Cult, Katherine Ryan, Royal Blood, Michael McIntyre a Bat Out of Hell. Mae perfformiadau a gynhelir yn y misoedd sy'n dod yn yr arena'n cynnwys Billy Ocean, The Hollywood Vampires a The Proclaimers. Mae'r arena wedi croesawu mwy na 80 o gynadleddau, seminarau a digwyddiadau corfforaethol dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys seremonïau graddio prifysgolion. Cynhaliwyd Cynhadledd Canol Dinas Abertawe 2023 hefyd yn yr arena am yr ail flwyddyn yn olynol ddydd Mercher 29 Mawrth.

Mae'r bartneriaeth adfywio strategol hirdymor ag Urban Splash yn parhau i wneud cynnydd da. Mae gwaith dylunio Cam 1 wedi datblygu ar y cynlluniau cychwynnol, sy'n cynnwys Cam 2 Bae Copr, safle'r Ganolfan Ddinesig a safle St Thomas. Bu cais am gyllid yn rownd 2 Cronfa Codi'r Gwastad (CCG) yn aflwyddiannus y tro hwn ac felly mae gwaith pellach yn cael ei wneud i wella'r cynnig fel rhan o Rownd 3 CCG pan wahoddir ceisiadau. Mae'r gwaith i gaffael hen siop Debenhams bellach wedi'i gwblhau ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â darpar feddianwyr y dyfodol i ddefnyddio'r adeilad eto at ddibenion buddiol.

Mae'r cynnydd hefyd yn parhau ar brosiect newydd Gerddi Sgwâr y Castell. Mae cais cynllunio wedi'i gymeradwyo ac mae gwaith yn parhau ar agweddau caffael ac adeiladu'r prosiect sy'n cynllunio ar gyfer ffynnon /jetiau d?r newydd, ychwanegu mannau gwyrdd ac amrywiaeth o gaffis a bwytai newydd sy'n edrych dros y sgwâr. Bydd y gwaith adeiladu'n dechrau'n ddiweddarach eleni.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae caniatâd cynllunio ar gyfer prosiect newydd yr Hwb Cymunedol yn hen adeilad BHS wedi cael ei gymeradwyo ac mae cam 4 RIBA (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain) wedi'i gwblhau. Llwyddwyd hefyd i benodi contractwr ac mae cynllun cost ar gyfer y prosiect newydd sy'n ystyried diwygiadau i'r rhaglen a chanfyddiadau'r arolwg wedi'i baratoi. Mae'r gwaith adeiladu yn Hwb Cyflogaeth 71/71 Ffordd y Brenin yn mynd yn ei flaen ac wedi cyrraedd lefel y llawr 1af. Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn i ddarparu datblygiad swyddfeydd uwch-dechnoleg newydd o bwys, gyda chyfanswm o 114,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr masnachol, gan ddarparu cyfleoedd gweithio hyblyg a swyddfeydd ar gyfer busnesau technoleg, digidol a chreadigol arloesol. Mae strategaeth gosodiadau bellach yn llywio'r gwaith o baratoi deunyddiau marchnata a brandio.

Mae prosiect Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod wedi gwneud cynnydd sylweddol, lle mae gwaith gosod gan gwmni wisgi Penderyn bellach yn mynd rhagddo. Bydd y ddistyllfa'n weithredol erbyn haf 2023. Mae gwaith adnewyddu hefyd yn parhau ar adeilad hanesyddol ond adfeiliedig Theatr y Palace, a ddaeth i feddiant y cyngor, gan arbed rhan o dreftadaeth Abertawe a gweithredu fel catalydd adfywio ar gyfer pen uchaf y Stryd Fawr. Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn golygu bod y Palace bellach wedi'i dynnu o gofrestr risg y Theatres Trust. Bydd y cynllun gorffenedig yn darparu gweithle digidol arloesol a fydd yn cynnig cartref i fusnesau sy'n tyfu yn y sectorau technoleg, digidol a chreadigol. Bydd 1544m2 o arwynebedd llawr yn cael ei adnewyddu i greu swyddfeydd o safon sy'n cynnig y posibilrwydd o ddarparu llety i amryfal fusnesau bach a chanolig.

Mae gwaith hefyd wedi parhau gyda Skyline Enterprises sydd wedi cynnal nifer o ymarferion ymgynghori cyhoeddus, gan rannu manylion eu cynnig i greu atyniad gondola gyda thraciau ceir llusg, gwifrau gwib a chyfleusterau ymwelwyr ar Fynydd Cilfái. Mae trafodaethau casglu tir i hwyluso'r cynllun wedi datblygu'n dda erbyn hyn ac mae gwaith arolwg technegol yn mynd rhagddo. Disgwylir i gais cynllunio gael ei gyflwyno'n ddiweddarach eleni.

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn rhaglen hirdymor i wella cyflwr, perfformiad thermol, diogelwch a fforddiadwyedd tai cymdeithasol sy'n eiddo i'r cyngor yn Abertawe. Ar ôl cwblhau'r SATC gwreiddiol ar 31 Rhagfyr 2021, buddsoddodd y cyngor fwy na £546m dros 18 mlynedd i sicrhau bod ei stoc tai'n cydymffurfio â'r Safon.

O ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol 2022/23, pasiodd SATC o gam targed cydymffurfio i gam cynnal a chadw. Mae'r buddsoddiad ar gyfer rhaglen gyfalaf eleni'n cael ei ddiwygio i £38.8m gyda SATC yn darparu £27.4m ar draws y flwyddyn ariannol a £11.4m wedi'i gwblhau ar gyfer y rhaglen adeiladu a chaffael newydd, Rhagor o Gartrefi.

Mae gwaith cyflwyno rhaglenni SATC wedi bod yn heriol o ganlyniad i analluogrwydd i recriwtio staff technegol allweddol i ddylunio a chaffael prosiectau, ynghyd â diffyg gallu contractwr a phrinder deunyddiau craidd yn oedi'r rhaglen gyffredinol. Er gwaethaf yr heriau, mae rhaglen WHQS wedi cyflwyno gwelliannau i adeiladweithiau ac wedi uwchraddio systemau gwresogi gan arwain at well perfformiad thermol a chartrefi cyngor effeithlon. Mae'r rhaglen hefyd wedi cyflwyno gwelliannau i ddiogelwch a diogeled gan gynnwys uwchraddio ardaloedd cymunedol mewn fflatiau, larymau mwg monitro o bell a synwyryddion carbon monocsid, isadeiledd CCTV, newid i system ddigidol ar gyfer safleoedd byw'n annibynnol ac ystod o fesurau diogelwch tân gan gynnwys systemau taenellu mewn blociau uchel. Ar gyfer 2022/23, mae'r Gwasanaeth Tai wedi sicrhau £2.6m o gyllid grant Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau sy'n cyfrannu at dargedau cynhesrwydd fforddiadwy a lleihau carbon. Mae £770,000 o gyllid grant hefyd wedi'i sicrhau o raglen Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o osod systemau taenellu yn Griffith John Street.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru ynghylch safon newydd y maent yn bwriadu'i chyflwyno sydd bellach wedi'i chynllunio ar gyfer hanner olaf 2023. Bydd y Safon newydd, SATC2023, yn adeiladu ar gyflawniadau'r safonau cynharach gyda phrif amcan polisi o wneud pob t? cymdeithasol yng Nghymru yn garbon sero net erbyn canol y 2030au. Bydd angen rhaglenni buddsoddi ar raddfa fawr i gyflawni'r dyletswyddau statudol yn y dyfodol a fydd hefyd yn cynyddu safonau tân a diogelwch a gwelliannau amgylcheddol a mesurau arbed d?r.

Mae Rhaglen Rhagor o Gartrefi'r cyngor, sy'n canolbwyntio ar ddarparu tai cyngor newydd, yn edrych ar ddyhead o gyflwyno 1,000 o dai fforddiadwy newydd mewn 10 mlynedd. Mae cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i Safon Abertawe, gan ddarparu lefelau uchel o inswleiddio a chysur thermol ac maent yn cynnwys technolegau adnewyddadwy, h.y. paneli solar, batris, pympiau gwres o'r ddaear etc, darparu Cartrefi fel Gorsafoedd P?er.

At ei gilydd, mae'r rhaglen Rhagor o Gartrefi wedi darparu'r canlynol:

- Wedi'u cwblhau hyd yma = 222
- Adeiladau newydd/wedi'u haddasu = 97
- Caffaeliadau = 125
- Addasiadau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd = 12 - gorffen yn haf 2023.

Mae cynlluniau ar y gweill i gyflawni'r canlynol (gan gynnwys y cynlluniau penodol a amlinellir uchod):

- Prosiectau sydd yn yr arfaeth i'w dechrau yn ein rhaglen 4 blynedd = 534
- Adeiladau newydd = 321
- Caffaeliadau = 213

Prosiectau sydd yn yr arfaeth i'w dechrau yn ein rhaglen 10 mlynedd = 263

Cyfanswm cyffredinol dros 10 mlynedd= 1,029

Cwblhawyd cynllun a oedd yn cynnwys chwe byngalo newydd yn West Cross ym mis Mawrth 2023. Dyfarnwyd £1.5m o gyllid y Rhaglen Tai Arloesol (RhTA) i'r cynllun hwn i ariannu'r technolegau adnewyddadwy i barhau â'r thema Cartrefi fel Gorsafoedd P?er. Mae gwaith hefyd wedi'i gwblhau i addasu hen eiddo'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngorseinon yn gartrefi 2 a 3 ystafell wely, a fydd yn barod i'w gosod o fis Mai 2023. Prynwyd yr hen safle addysg yn Nh? Brondeg hefyd i'w ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy, ac mae'r adeilad presennol bellach wedi cael ei ddymchwel i wneud lle ar gyfer 14 o unedau tai fforddiadwy newydd. Mae arolygon safle i lywio'r gwaith dylunio manwl wedi cychwyn a bwriedir cyflwyno cais cynllunio ym mis Awst 2023.

Mae'r gwaith i ddymchwel hen Swyddfa Dai Ardal y Clâs bellach wedi'i gwblhau, fel rhan o ddatblygiad 9 cartref newydd yn Creswell Road. Mae'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno a disgwylir penderfyniad arno yn yr haf. . Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar ddyluniad manwl ar gyfer Heol Dynys, lle bydd 20 o gartrefi, a disgwylir i gais cynllunio gael ei gyflwyno yn ystod 2023.

Mae uwchgynllun yn cael ei ddatblygu gyda thîm amlddisgyblaethol ar gyfer 4 safle ym Môn-y-maen a fydd yn darparu 160 o gartrefi newydd, a disgwylir i gais cynllunio gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2023. Mae digwyddiad ymgynghori cyhoeddus wedi'i gynnal gyda phreswylwyr i roi cyfle iddynt fynegi eu barn ar y cynigion a dylanwadu ar y dyluniad terfynol.

Mae'r cyngor hefyd yn bwrw ymlaen â'r ymgais i gaffael partner datblygu i ddarparu tai deiliadaeth gymysg ar ddau safle sy'n eiddo i'r cyngor ym Mhenderi, wrth sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posib o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol. Mae'r cyngor hefyd wedi caffael tîm amlddisgyblaethol i ddarparu uwchgynllun ar gyfer y gwaith adnewyddu ar safle mawr sy'n eiddo i'r Adran Tai ym Mhen-lan, sydd hefyd yn cynnwys elfen adeiladu o'r newydd. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus â'r preswylwyr i gael amcan o'u barn ar y cynigion. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu yn awr i gyflwyno'r gwelliannau, gan ddechrau gyda'r gwelliannau mewnol i adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor, gan gynnwys gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd, ailweirio, gosod boeleri newydd a'u diogelu rhag tywydd garw a gwyntoedd.

Mae cynlluniau cysyniad wedi'u cwblhau ar gyfer naw safle ARhC arall ar y cyd â chydweithwyr cynllunio a chreu lleoedd. Dechreuodd y gwaith dymchwel ym mis Mawrth 2023 ym Mharc Busnes Gorseinon (PBG - un o'r 9 safle) i wneud lle i adeiladu tua 30 o gartrefi fforddiadwy newydd. Mae PBG, ynghyd â dau safle arall, Gower Road Sgeti a Penrhos Place, Gendros, wedi'u dewis i'w cynnwys mewn comisiwn ar gyfer tîm amlddisgyblaethol dan arweiniad pensaernïol i ddylunio a chyflwyno ceisiadau cynllunio. Bydd hyn yn ehangu'r adnoddau sydd ar gael i alluogi'r Rhaglen Rhagor o Gartrefi i fynd ati i ddatblygu rhestr arfaethedig o safleoedd i'w cyflwyno wrth i'r cyllid ddod ar gael.

Mae'r cyngor wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith i 36 eiddo gwag, gan gynyddu cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu paratoi i'w gosod dros y 6 mis nesaf. Byddai'r ymagwedd hon hefyd yn arwain at baratoi adeiladau gwag arferol yn gyflymach, gan na fyddai'r tîm mewnol yn ymgymryd â gwaith cyfalaf mawr. Roedd y cais hefyd yn cynnwys cais i ariannu'r gwaith o ailfodelu ac addasu 2 hen Swyddfa Dai Ardal (SDA). Caiff hen SDA Pen-lan ei addasu'n 6 fflat 2 ystafell wely, gyda 2 fflat hygyrch ar y llawr gwaelod. Bydd hen SDA Eastside yn cael ei addasu'n 4 fflat 1 ystafell wely, ac unwaith eto bydd y 2 fflat ar y llawr gwaelod yn hygyrch. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2023 a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023.

Mae cyllid TACP hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer prynu 15 o gyn-eiddo'r cyngor ar y farchnad agored, i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2023 i ategu rhaglen gaffael gyfredol y cyngor, sydd wedi dod â chyfanswm cyfunol o 53 o gyn-eiddo'r awdurdod lleol, a brynwyd yn flaenorol drwy'r hawl i brynu eiddo, yn ôl i'r stoc tai cymdeithasol yn ystod 22/23, gyda thros 123 wedi'u prynu ers i'r rhaglen ddechrau yn 2018.

Yn ystod chwarter olaf 2022/23, cyfunodd Tîm Marchnata a Rheoli Cyrchfannau'r Cyngor (MaRhC) yr enillion a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn gan gyflawni canlyniadau diwedd blwyddyn ardderchog. Yn gyffredinol roedd nifer yr achlysuron yr edrychwyd (cliciwyd) ar dudalennau croesobaeabertawe.com (gwefan y cyrchfan), i fyny 8% ar Ch4 2022, sef 446,043, ein hystadegau uchaf sydd wedi'u cofnodi ar gyfer Ch4. Mae nifer yr achlysuron yr edrychwyd ar dudalennau'r wefan ar gyfer y flwyddyn ariannol felly'n dod i gyfanswm o 2,213,336

Yn ystod y chwarter hwn roedd y wefan hefyd wedi dod â £54,253 i mewn drwy werthiant tocynnau, i fyny 295% ar Ch4 2022. Rhwng 1 Ebrill 22 a 31 Mawrth 23, mae'r wefan wedi cynhyrchu cyfanswm o £240,896 mewn gwerthiant tocynnau, y cyfanswm uchaf hyd yma.

Mae'r tîm wedi parhau i gefnogi adferiad y sector twristiaeth drwy gyflawni Cam 2 y Gronfa Cymorth i Dwristiaeth a ariennir gan Adferiad Economaidd (CCT2) yn llwyddiannus yn 2022/23. Cymeradwywyd a chefnogwyd 15 o brosiectau gwahanol ar draws y cyrchfan i werth cyffredinol o £115,700. Ar y cyd ag arian cyfatebol y busnesau eu hunain, roedd y prosiect yn werth dros £234,000 i'r diwydiant twristiaeth lleol. Cyflawnwyd pob un o'r 15 prosiect ar amser ac ar gyllideb erbyn dyddiad cau Ch4, sef 3 Mawrth 2023. Yn seiliedig ar lwyddiant y cynllun, mae'r Tîm MaRhC wedi gwneud cais am gefnogaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ailadrodd y strategaeth hon fel Cam 3 posib y Gronfa Cymorth i Dwristiaeth yn 23/24 a 24/25.

Yn ogystal, mae'r pecynnau lefel mynediad am ddim i bartneriaid marchnata wedi'i ehangu i helpu busnesau twristiaeth lleol i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Mae hyn yn cynnwys gwe-dudalen ar croesobaeabertawe.com ac mae wedi bod yn gymhelliant sylweddol i'r diwydiant twristiaeth lleol ymgysylltu â gweithgarwch marchnata twristiaeth y cyngor.

Mae'r chwarter olaf yn un heriol i fusnesau, felly er mwyn cefnogi'r diwydiant twristiaeth ymhellach yn ystod y cyfnod rhwng y tymor brig a'r tymor tawel, datblygwyd cyfres o ymgyrchoedd marchnata Croeso Bae Abertawe traws-lwyfan i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyrchfan ar gyfer gwyliau'r gaeaf. Gan fanteisio ar duedd gyfredol, lansiodd y tîm ymgyrch 'Lles y Gaeaf' newydd ddechrau mis Ionawr. Anogwyd darpar ymwelwyr i archebu gwyliau byr ym Mae Abertawe yn ystod misoedd y gaeaf, i wneud yn fawr o fanteision iechyd a lles ein harfordir a'n cefn gwlad.

Cynhelir Wythnos Awyr Dywyll Cymru ym mis Chwefror (17eg-26ain) a chynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys fideos treigl amser o awyr dywyll G?yr a ffotograffau newydd. Ddechrau mis Mawrth, lansiwyd dwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ychwanegol ar yr un pryd. 'Gwyliau mewn llety sy'n caniatáu c?n', a ddenodd nifer sylweddol o bobl ac ymgyrch 'Natur a Bywyd Gwyllt y Gwanwyn', sy'n cynnwys tri fideo bywyd gwyllt a gyflwynwyd gan Iolo Williams, personoliaeth teledu a naturiaethwr (a lansiwyd gyntaf yn 2022). Mae'r fideos yn dangos Parc Singleton a Bae Bracelet, Cefn Bryn ac Oxwich, Coed Cwm Penllergare a Dyffryn Lliw.

Mae'r holl ymgyrchoedd yn cysylltu â'r brif thema lles a manteision mwynhau'r awyr agored ar ddechrau'r flwyddyn, wrth dynnu sylw hefyd at y lleoedd clyd i aros, bwyta ac yfed - a'r amrywiaeth o leoliadau diwylliannol neu weithgareddau dan do i ymweld â nhw. Yn ogystal, cyflwynwyd negeseua i annog pobl i archebu'n gynnar ar gyfer gwyliau'r Pasg, diwedd y gwanwyn a'r haf. Defnyddiwyd yr hysbysebion fideo ar alw (gweler isod) i ddangos y cyfleoedd o fewn y cyrchfan ar gyfer pob un o'r tair prif gynulleidfa darged; teuluoedd, cyplau iau a ffrindiau a phobl dros 50 oed.

Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi arwain at dwf parhaus y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymwelwyr (Croeso Bae Abertawe); gyda Facebook yn cyrraedd 85,400 o ddilynwyr, Twitter 19,100 mil ac Instagram 6,700 mil. O'i gymharu â Ch4 yn 2022, mae'r ymatebion i Facebook wedi codi 102% (gyda 115, 128 o bobl wedi ymwneud â chynnwys VSB) ac roedd cyfanswm y nifer a welodd y cynnwys i fyny 60%, gyda fideos yn cael eu gwylio 463,220 o weithiau (i fyny 72%). Mae cyfrif TikTok Bae Abertawe (a lansiwyd ym mis Ebrill 2022) wedi tyfu i dros 1,600 o ddilynwyr a bwriedir iddo gyflwyno cynulleidfa iau gartref ac ymhellach i ffwrdd i'r amrywiaeth o bethau i'w gwneud ym Mae Abertawe a'r digwyddiadau a gynhelir yma.

Wrth godi ein proffil drwy fudd Cyllid Adferiad Economaidd, cyflwynom ail gam ein hymgyrch cyfryngau a fideo awyr agored ar alw (VoD), a oedd yn cynnwys safleoedd posteri digidol a sefydlog mewn hybiau trafnidiaeth allweddol ar draws Llundain. Yn ogystal, dangoswyd hysbysebion digidol yn y pum gorsaf brysuraf ar hyd y rhwydwaith rheilffyrdd. Mae adroddiad terfynol yr elfen hon o'r ymgyrch yn cael ei baratoi o hyd, ac amcangyfrifir y bydd tua 25 miliwn yn gweld hysbysebion gweithgarwch y gwanwyn dros 5 wythnos. Mae hyn i gyd yn golygu bod y gweithgarwch hwn a ariannwyd ar gyfer yr hydref a'r gwanwyn wedi cael ei weld dros 50 miliwn o weithiau'n gyffredinol.

Cyflwynwyd Cam Dau yr ymgyrch VoD drwy Sky a defnyddiwyd tair hysbyseb wahanol a ddyluniwyd yn benodol i apelio at dair marchnad darged ar wahân - teuluoedd, cyplau/ffrindiau iau a phobl dros 50 oed. Dangosodd yr adroddiad terfynol ar gyfer y gweithgarwch hwn fod yr hysbysebion wedi cael eu dangos 767,293 o weithiau dros gyfnod o bum wythnos a'u bod wedi 'gor-gyflawni' 6% (yn werth £3,384). Roedd hyn yn golygu y dangoswyd yr hysbysebion bron 1.5 miliwn o weithiau i aelwydydd yn ein marchnadoedd targed.

Cysylltiadau Cyhoeddus yw trydedd elfen yr ymgyrch ymwelwyr. Ar y cyd â busnesau lleol, bu'r Tîm yn gyfrifol am ymweliadau gan bum newyddiadurwr, blogiwr a dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys papur newydd The Sun a dylanwadwr Cymraeg a chyflwynydd S4C, Llio Angharad. Arweiniodd yr ymweliadau hyn at sylw yn y cyfryngau a oedd yn werth £140,831 o ran hysbysebu cyfatebol (gyda gwerth cysylltiadau cyhoeddus o £422,193). Nid yw'r adroddiad cysylltiadau cyhoeddus llawn ar gyfer 2022/23 wedi'i dderbyn eto gan eu bod yn dal i aros i rywfaint o'r sylw gael ei gyhoeddi.

Ym mis Ionawr 2023, ac i gyd-fynd â thema Croeso Cymru 2023, sef 'Llwybrau Cymru by Trails', lansiodd y Tîm MaRhC yr ymgyrch 'Profwch ein Llwybrau' i drigolion Abertawe. Roedd yr ymgyrch hon yn hyrwyddo'r amrywiaeth o lwybrau ar draws y ddinas, gan gynnwys y gwahanol leoliadau diwylliannol a llwybrau cerdded a beicio. Bydd y thema 'Profwch ein Llwybrau' yn parhau drwy gydol y flwyddyn. Mae ymchwilio, datblygu, ysgrifennu a gweithredu'r cynlluniau marchnata ar gyfer digwyddiadau wedi bod yn rhan fawr o Chwarter 4 ar gyfer y tîm 'Joio'. Ymhlith y digwyddiadau mae g?yl Croeso a G?yl Jazz Ryngwladol Abertawe sydd ar ddod, a oedd yn cynnwys dyluniad newydd sbon, Sioe Awyr Cymru, cynyrchiadau Theatr Awyr Agored a digwyddiadau 10k Bae Abertawe Admiral.

Mae digwyddiadau partner hefyd wedi derbyn cefnogaeth farchnata i hyrwyddo Pride, digwyddiadau yn Neuadd Brangwyn, cyngherddau ym Mharc Singleton, yr ?yl Parachwaraeon, Ironman 70.3 Abertawe a Chyfres Para Treiathlon y Byd a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Derbyniodd y digwyddiad Gwobrau Chwaraeon ym mis Mawrth gefnogaeth farchnata gynhwysfawr drwy werthiant tocynnau, cefnogaeth ar y noson i gyflwyno'r digwyddiad, cefnogaeth nawdd a marchnata "Joio" drwy arwyddion, cysylltiadau cyhoeddus a gweithgarwch ar-lein, a darparwyd cyfryngau awyr agored yn barod ar gyfer ailagor yr atyniadau awyr agored a Chastell Ystumllwynarth, y byddwn yn parhau i'w cefnogi yn ystod tymor 2023/2024.

Mae trefnwyr digwyddiadau allanol yn dal i brynu pecynnau marchnata i bartneriaid Joio Bae Abertawe ac roedd yr incwm diwedd blwyddyn ar gyfer pecynnau marchnata Joio! yn fwy na £44,000. Mae'r llwyddiant hwn yn cael ei adlewyrchu yn nifer y tanysgrifwyr e-bost, sef oddeutu 13,000 o danysgrifwyr yn awr a thros 30,000 o ddilynwyr ar Facebook, 19,300 o ddilynwyr ar Twitter a thros 4000 o ddilynwyr ar Instagram.

Mae Facebook Joio wedi cael Ch4 arbennig o gryf gyda phobl yn ymateb mewn rhyw ffordd dros 73,000 o weithiau - i fyny 192% ar Ch4 2022; dros 1.9 miliwn o bobl wedi gweld y cynnwys - i fyny 158% ar Ch4 2022; dros 472,000 o bobl wedi gweld y cynnwys heb hysbysebion/hyrwyddiad â thâl - i fyny 16% ar Ch4 2022; a dangoswyd (a gwelwyd) y cynnwys dros 2.7 miliwn o weithiau - i fyny 165% ar Ch4 2022. Dyma'r Ch4 gorau a gofnodwyd o ran Instagram Joio hefyd, gyda'r cynnwys wedi'i ddangos (a'i weld) dros 259,000 o weithiau, i fyny 665% ar Ch4 2022, a thros 138,000 wedi gweld y cynnwys, cynnydd o 489% ar Ch4 2022.

Er mai dyma'r cyfnod tawelaf o'r flwyddyn ar gyfer digwyddiadau yn draddodiadol, edrychwyd ar dudalennau'r adran Digwyddiadau ar y wefan 15,098 o weithiau yn Ch4 yn unig, ac edrychwyd ar yr adran galendr 4,134 o weithiau, i fyny 54% ar Ch4 2022. Yn gronnol, edrychwyd ar adran Digwyddiadau y wefan dros 111,000 o weithiau yn Ch4, i fyny 41% ar Ch4 2022. Mae ein fideograffiaeth newydd ei gomisiynu a'i gyflawni drwy ymgyrchoedd hefyd wedi cael croeso mawr, ac wedi'i wylio dros 335,000 o weithiau hyd yn hyn yn Ch4 yn unig.

Mae'r diwydiant ffilm a theledu yn parhau i fod yn ffordd bwysig o greu incwm i'r Gwasanaethau Diwylliannol a'r cyngor yn fwy cyffredinol. Eleni, cynhyrchodd gweithgarwch ffilmio gyfanswm incwm o £30,725, heb gynnwys ffïoedd ar gyfer costau uniongyrchol e.e. cau ffyrdd, etc. Yn y chwarter hwn buom yn hwyluso gweithgarwch ffilmio Boom Cymru a Quay Street Productions ar gyfer drama gomedi’r BBC, ‘Men Up’. Dechreuodd y gwaith ffilmio ar gyfer y ddrama ITV ‘Delia’ yn yr ardal hefyd ac mae disgwyl i'r ffilmio barhau hyd at fis Ebrill. Roedd 'The Winter King' gan Bad Wolf, cynhyrchiad ffantasi sy'n seiliedig ar Warlord Chronicles gan Bernard Cromwell, yn ffilmio golygfeydd ym Mhorth Einon a ffilmiwyd golygfeydd 'Y Swn' ar gyfer S4C yn Neuadd y Ddinas a'r Ganolfan Ddinesig yr hydref diwethaf, a gafodd ei ryddhau mewn sinemâu ledled Cymru am gyfnod cyfyngedig. Mae bellach ar gael i'w wylio ar BBC iPlayer (https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/p0fc10nr/y-swn).

Roedd cynyrchiadau bach yn ystod y chwarter yn cynnwys y canlynol: Pooch Mooch, Sky; rhaglen ddogfen Little Bird Films ar ddawnsio neuadd yn Neuadd Brangwyn ac 'Our Oceans' gan Wildspace Productions.

Ar gyfer y Tîm Digwyddiadau Arbennig, roedd mis Ionawr yn nodi diwedd cyfnod hynod lwyddiannus Gwledd y Gaeaf ar y Glannau a oedd wedi denu 150,000 o ymwelwyr i fwynhau'r sglefrio iâ, yr olwyn fawr a'r gweithgareddau eraill a oedd ar gynnig.

Ochr yn ochr â rhaglen brysur o ddigwyddiadau, mae'r tîm yn parhau i ddatblygu ac archwilio i ymarferoldeb croen digidol yr arena. Mae'n dod yn gynyddol boblogaidd ag artistiaid gwadd ac ar gyfryngau cymdeithasol, ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o gynyddu ei heffaith wrth i'r gwaith adfywio fynd rhagddo.

Mae digwyddiadau'n rhan allweddol o ddenu ymwelwyr a daeth chwarter 4 i ben gyda ddechrau tymor y gwanwyn a digwyddiad Croeso, sef digwyddiad deuddydd poblogaidd sy'n dathlu popeth sy'n ymwneud â diwylliant Cymru a dydd Gwyl Dewi. Cynhaliodd canol y ddinas adloniant byw, marchnad brysur a oedd yn gwerthu cynnyrch o Gymru, gorymdaith ac arddangosiadau coginio poblogaidd. Roedd gweithgareddau'r penwythnos yn cynnwys gweithgareddau yn ystod y dydd a chyda'r hwyr, gyda rhaglen gerddoriaeth mewn nifer o leoliadau yng nghanol y ddinas.

Daeth y chwarter i ben gan roi sylw arbennig i waith cyfalaf mawr ei angen ym Mharc Singleton, gyda'r nod o wella gwaith draenio yn y cae Lacrosse er mwyn paratoi ar gyfer tymor prysur arall. Fe wnaethom hefyd gwblhau nifer o brosiectau'r Gronfa Cadernid Economaidd a oedd yn cynnwys ardaloedd lletygarwch newydd, dros dro, cefnogi nifer o fusnesau bwyd a diod yn ardal y Mwmbwls, gwelliannau i'r amffitheatr a chael gwared ar y mwyafrif o ffïoedd llogi digwyddiadau gan eu helpu i barhau i'w cynnal fel rhan o'r adferiad yn dilyn COVID.

Yn ystod y chwarter fe wnaethom gymryd drosodd yr hen siop gerddoriaeth, Cranes, gyda chyfres o sgyrsiau â'r sector creadigol a diwylliannol, gan gynnwys codi arian, lles a sefydlu Rhwydwaith Creadigol. Mae’r gwaith hwn, ochr yn ochr â digwyddiadau eraill fel cymryd rhan yn y trafodaethau panel ar gyfer cynhadledd 4 the Region yn yr arena, wedi esblygu o alw yn y gymuned ddiwylliannol ac mae wedi’i drosi’n rhan ganolog o gais y gwasanaeth am brosiect angori ar gyfer diwylliant a thwristiaeth fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yr ydym yn aros am adborth pellach ohoni. Mae agwedd arall ar y 'gronfa', h.y. y Gronfa Codi'r Gwastad, wedi arwain at lwyddiant i Amgueddfa Abertawe, a fydd yn gweld gwelliannau i'w hisadeiledd, ei mannau addysg ac arddangos fel rhan o gynnig Cwm Tawe Isaf.

Cafwyd llwyddiant ariannol hefyd o gronfa Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru er mwyn symud Llyfrgell Ganolog Abertawe i'r Hwb Cymunedol newydd i ganiatáu ar gyfer offer ychwanegol ac offer digidol i gefnogi cymunedau wrth i ni symud i'r lleoliad newydd. Cwmni Waters Creative oedd yn gyfrifol am y gwaith brandio, a fu'n gweithio gyda rhanddeiliaid ac a arweiniodd at ymagwedd gyfoes a'r enw newydd, Y Storfa (The Store), sy'n adlewyrchu hanes yr adeilad fel siop adrannol, a'i defnydd yn y dyfodol fel 'storfa' i bobl, gwasanaethau cymdeithasol, casgliadau, archifau, llyfrau, syniadau, gweithgareddau a dysgu. Treulir cryn dipyn o amser ar gyfer y prosiect hwn yn sicrhau bod ‘storfa’ yr Archifau yn addas, fel ei bod yn bodloni’r Safonau Prydeinig, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda iawn. Ar yr un pryd gwnaethom hefyd gomisiynu ymgynghoriaeth allanol i archwilio opsiynau ar gyfer dyfodol tymor hwy'r gwasanaeth Archifau, gan gynnwys rhai cyrff partner yn y rhanbarth. Gwnaed hyn er mwyn i ni ystyried twf a newidiadau mewn arferion at ddibenion ymchwil a chael mynediad at ddeunyddiau.

Drwy'r agenda Trawsnewid Trefi, mae'n archwilio'r cysyniad o 'ganolfan hanes' a rennir, gan gyfuno casgliadau niferus i gynorthwyo ymchwilwyr i gyflawni gwell dealltwriaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol eu hunain a threftadaeth ddiwylliannol y ddinas, a chyflwyniad y ddinas fel tirwedd greadigol. Yn yr un modd, drwy weithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Adfywio, gwnaethom gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb i Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau a syniadau ar gyfer oriel 'angor' genedlaethol, i'w lleoli yn y Ganolfan Ddinesig ochr yn ochr â'n cais am gytundeb ariannu drwy bartneriaeth pellach ar gyfer ‘Cyfuno’, rhaglen sy'n mynd i'r afael â thlodi drwy ddiwylliant, a chytundeb tair blynedd arall gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian.

Bydd newyddion am y cynigion hyn yn cael eu cynnwys yn adroddiad Chwarter 1.

Yn chwarter 4 2022/2023, mae ffigurau ymwelwyr ag Oriel Gelf Glynn Vivian wedi parhau i gynyddu ac maent bellach yn cyrraedd eu lefelau cyn y pandemig, fis ar ôl mis. Cyrhaeddodd yr arddangosfa a gydnabuwyd yn genedlaethol, His Dark Materials, Creu Bydoedd yng Nghymru, y lefelau uchaf erioed o ran ffigurau'r cynulleidfaoedd, gyda thros 18,000 o ymwelwyr yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2023. Dyma'r ffigurau uchaf a gyrhaeddwyd mewn chwarter ers haf 2002 (Deg Darlun o'r Casgliad Brenhinol - Leonardo da Vinci) a hydref 202, (Lowry yng Nghymru). Ym mis Mawrth 2023 gwelwyd y ffigwr misol unigol uchaf o ymwelwyr â'r oriel ers 'Lowry yng Nghymru' yn hydref 2002, gyda thros 8,700 o bobl yn ymweld â'r oriel yn bersonol. Bu'r oriel yn gweithio'n agos ar ymgyrch farchnata His Dark Materials gyda thimau marchnata Croeso Bae Abertawe a Joio Bae Abertawe, gan ennill sylw'r wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys papurau newydd The i, The Telegraph, The Sun, First News a The Independent, yn ogystal â chynnal blogwyr a dylanwadwyr cyrchfannau.

Mae gennym nawr y cyfle i estyn yr arddangosfa tan 2 Gorffennaf 2023.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Screen Alliance Wales i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu a chyngor gyrfaoedd (yn ogystal â Fusion Abertawe a Busnes Cymru) ar gyfer pobl ifanc sydd am weithio yn y diwydiannau creadigol. Bydd y bartneriaeth hon yn cael ei hestyn dros y misoedd nesaf wrth i arddangosfa His Dark Materials barhau.

Agorodd Abertawe Agored 2023 ym mis Ionawr, gyda'r nifer mwyaf erioed o geisiadau. Ym mis Ionawr daeth mwy na 700 o bobl i'r oriel ar gyfer agoriad yr arddangosfa a chawsom hefyd y nifer uchaf erioed o werthiannau o'r arddangosfa.

Parhaodd yr oriel hefyd â'i phartneriaethau cenedlaethol â sefydliadau mawr ledled y DU gyda'i harddangosfa Eiconau o Gymru mewn partneriaeth â'r Oriel Bortreadau Genedlaethol a'u Rhaglen Rhannu Sgiliau Genedlaethol.Drwy'r prosiect hwn rydym wedi gallu cynnig interniaeth chwe mis yn y sector amgueddfeydd ac orielau i rywun o gefndir heb gynrychiolaeth ddigonol, heb unrhyw wybodaeth flaenorol am weithio mewn amgueddfeydd ac orielau na hyfforddiant academaidd cysylltiedig. Mae'r interniaeth yn parhau tan fis Mehefin 2023. Mae dau artist cyfoes hefyd wedi'u comisiynu i greu celfweithiau ar gyfer y prosiect parhaus hwn.

Ar ddiwedd Rhagfyr 2022, cyhoeddwyd bod 10 o gelfweithiau o gasgliad parhaol Oriel Gelf Glynn Vivian wedi'u dewis i gael eu harddangos yn 10 Downing Street, fel rhan o'r prosiect 'Museums in Residence Number 10', sef menter gan Government Art Collection Mae'r arddangosfa yn sicrhau bod rhai o'r celfweithiau gorau o'r casgliad yn cael eu gweld y tu allan i Abertawe ac i gynulleidfaoedd newydd ddod ar eu traws dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys y staff a llawer o ymwelwyr â'r adeilad cyhoeddus hwn. Dyma ddechrau partneriaeth newydd â'r Government Art Collection a fydd yn datblygu dros y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn parhau i weithio ar ein partneriaeth â'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol, un o 5 comisiwn mawr a ddyfarnwyd i sefydliadau ledled y DU a fydd yn arwain at arddangosfa fawr newydd gan Heather Phillipson, enwebai Gwobr Turner 2022. Mae gwaith a chynllunio hefyd wedi dechrau ar arddangosfa Artes Mundi 10, lle bydd yr oriel yn un o 5 lleoliad yng Nghymru i gynnal arddangosfa artistiaid o'r wobr gelf ryngwladol hon a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, a gynhelir yn hydref 2023.

Roedd yn bleser gennym dderbyn y newyddion ein bod wedi llwyddo i gadw ein grant 'Creu' gan Gyngor Celfyddydau Cymru a fydd yn cefnogi ymgysylltu â phobl leol i ddarparu sgiliau creu a chydgynhyrchu ymarferol er mwyn creu man ar gyfer lles ac i gefnogi artistiaid o Gymru. Bydd y grant yn rhoi cyllid ac adnoddau i ni barhau â'n gwaith gyda'n partneriaid cymunedol, gan gynnwys Dinas Noddfa Abertawe, Cymdeithas Affricanaidd Abertawe a Chymdeithas Iberaidd a Lladin Americanaidd Cymru a Sight Life, ymhlith eraill. Roedd rhaglenni partneriaeth dysgu newydd ar gyfer Ch4 2022-2023 yn cynnwys cydweithio â Dysgu Cymraeg (Prifysgol Abertawe), Caffi Gofalwyr Dementia a chasgliad Bywluniadu Siapiau Cwiar, gan ychwanegu ymhellach at ein hymrwymiad i gynrychioli ein holl gymunedau yn ein gweithgareddau, ein rhaglenni a'n digwyddiadau.

Theatr y Grand Abertawe -

Mae'r rhaglen wedi parhau i fynd o nerth i nerth ac er gwaethaf dychweliad araf gan ein cynulleidfaoedd, fel y profwyd yn genedlaethol, torrodd y pantomeim Beauty and the Beast, lle bu 48 perfformiad ohono, record y swyddfa docynnau gyda chynnydd o 15.9% mewn gwerthiannau. Cafodd y cynhyrchiad, gan gynnwys perfformiadau hygyrch, ei gydnabod ar lefel genedlaethol gyda gwobr Pantomeim y Flwyddyn yng Ngwobrau Cymdeithas Pantomeim y DU, sef Oscars y diwydiant. Cafodd y sioe ei henwi hefyd fel y pantomeim gorau mewn lleoliadau â thros 900 o seddi, a hefyd enillodd wobr am y dyluniad set gorau ar gyfer ei set ddigidol ddisglair. Nid yw'n syndod bod y 34,798 o bobl a aeth i'r theatr wedi rhoi adborth a oedd yn hynod gadarnhaol a'u bod wedi dechrau prynu tocynnau ar gyfer perfformiad Cinderella y flwyddyn nesaf.

Fel y disgrifiwyd mewn diweddariadau blaenorol, roedd 'strategaeth adfer' ar gyfer y theatr, a ariannwyd drwy gyllid Cronfa Adferiad Economaidd y cyngor a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn cynnwys comisiynu Uchelgais Grand, casgliad o arbenigwyr theatr Abertawe, i ddatblygu perfformiadau mewnol, unigryw. Gan adeiladu ar lwyddiant y chwarteri blaenorol, derbyniodd Uchelgais Grand lawer o glod am eu cynhyrchiad 'Sorter', sef golwg di-flewyn-ar-dafod ar ddibyniaeth ar gyffuriau o wahanol safbwyntiau cymdeithasol. Bu mor llwyddiannus, mae 'trosglwyddiad tymor byr' i theatr Sherman a Donmar Warehouse bellach yn cael ei drafod. Ochr yn ochr â chynhyrchu gwaith, lansiodd y tîm hefyd 'Future Blood' a 'TAG' (The Actors Group) – sef rhaglenni sgiliau, hyfforddiant a mentora ar gyfer cynhyrchu a pherfformio cerddoriaeth a theatr, i gefnogi datblygiad personol a chefnogi pobl wrth iddynt gael gyrfa yn y diwydiant. Mae'r rhaglenni wedi bod yn boblogaidd iawn ac maent yn debygol o fod yn llwyddiannus yn y tymor hir.

Daeth National Theatre Wales hefyd â chynhyrchiad newydd i'r theatr a oedd yn cyfuno rhyngwyneb gwleidyddol, drama, dathliad a cherddoriaeth fyw drwy gynhyrchiad gwreiddiol sy'n ysgogi'r meddwl gyda'r brodyr Matsena o Abertawe. Mae'r cynyrchiadau a'r prosiectau hyn yn adeiladu ymhellach ar enw da Theatr y Grand fel lleoliad celfyddydau a chymunedol ag enw da yng nghanol y ddinas, sy'n wahanol i leoliadau eraill yn y ddinas, gan adeiladu ein cyfalaf diwylliannol ar gyfer ein holl ymwelwyr a phreswylwyr.

Parhaodd y gwasanaeth Chwaraeon ac Iechyd i ganolbwyntio hefyd ar ddarparu cyfleoedd i'r gymuned, ysgolion a grwpiau defnyddwyr â blaenoriaeth ymgysylltu, mwynhau a dathlu chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol. Cyflawnir hyn drwy welliannau i isadeiledd, rhaglenni a digwyddiadau y mae'r tîm yn eu hwyluso neu'n eu cyflawni gyda chanlyniadau cadarnhaol i bob oedran. Ym mis Mawrth, cynhaliwyd Gwobrau Chwaraeon Abertawe yn Neuadd Brangwyn. Dyma ddathliad o ragoriaeth a chyflawniad chwaraeon gan dalentau lleol, ac mae'r digwyddiad yn cydnabod llwyddiannau unigolion a thimau o bob oed a gallu, yn ogystal â'r arwyr a'r hyfforddwyr di-glod sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni i greu a chadw clybiau i fynd, gan gyfoethogi ein cymunedau a chynnig cyfleoedd i ni gyd gymryd rhan mewn chwaraeon o bob math a'u mwynhau.

Mae gwaith yn ysgol a chanolfan hamdden Cefn Hengoed, a fydd yn cynnwys Ysgubor Chwaraeon 3G a chyfleusterau Hamdden Cymunedol ac Addysg Gorfforol gwell, wedi datblygu'n dda dros gyfnod y Gwanwyn. Mae llawer o'r gwaith eisoes wedi'i gwblhau, i'r contract gwreiddiol sy'n ymwneud â gwelliannau i ardal yr ysgol, a gwelliannau ychwanegol ar gyfer mynediad cymunedol a gwahanu disgyblion. Mae £0.5m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgolion, ynghyd â chyfraniad gan A106 wedi ychwanegu gwelliannau pellach at y safle ehangach, gan ddarparu mannau ysgol a chymunedol pwrpasol a gwerthfawr. Mae gwaith i'r prif gyfleuster ffitrwydd newydd hefyd wedi datblygu, gyda'r gwaith i dynnu hen beiriannau allan a gosod peiriannau a chyfarpar mecanyddol newydd bellach wedi'i gwblhau ac arhosir yn awr am osodiadau, gosodion ac offer.

Roedd y weledigaeth i ddarparu pentref chwaraeon rhyngwladol ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe, mewn partneriaeth â'r Brifysgol, hefyd wedi cymryd cam ymlaen gyda chyllid yn cael ei gymeradwyo gan Chwaraeon Cymru i osod meinciau ar draws un o'r ddau gae hoci o ansawdd rhyngwladol. Rydym yn gobeithio'u gosod cyn Pencampwriaethau Hoci Ewrop a fydd yn cael eu cynnal ar y safle yn yr haf, a byddwn yn parhau i gysylltu â chydweithwyr ar draws y cyngor i gyflawni'r canlyniadau gorau posib ar y safle. Yn y cyfamser parhaodd y gwaith i bennu model gweithredu cynaliadwy hirdymor ar gyfer Pwll Cenedlaethol Cymru a'r Parc Chwaraeon ehangach, ynghyd â Phartneriaid y Brifysgol, o ddifri’, gydag ystod o fodelau cyllido a gweithredu’n destun ymchwiliad i'w profi yn ystod y chwarter nesaf / haf '23.

Mae buddsoddiad gan ein partner Freedom Leisure yn y canolfannau hamdden cymunedol yn arwain yn araf at ganlyniadau cadarnhaol ac mae pawb yn croesawu arwyddion adferiad, wrth i gwsmeriaid ddychwelyd yn araf i'r safle. Ni ellir goramcangyfrif effaith COVID ar y sector ac mae'r cyngor wedi defnyddio’i gronfeydd wrth gefn i gefnogi cynaliadwyedd y sector lle bynnag y bo modd. Yn gyfnewid am hyn, mae Freedom wedi lleihau costau i oddeutu hanner yr amcangyfrifon cyn contract ac yn parhau i wneud cynnydd sylweddol wrth ailadeiladu'r busnes er gwaethaf ystod o heriau.


Aed ati hefyd i ‘dynnu ceisiadau o het’ ar gyfer cytiau Bae Langland yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer pob un o'r 23/4 o osodiadau, gyda'r galw gan breswylwyr Abertawe yn uchel. Mae'r gyfradd ddeiliadaeth yn 100% ar gyfer y tymor sydd i ddod, gyda chyfres hylaw o gyfnodau gosod o 3, 6 a 10 mis ac opsiwn newydd o 12 mis. Croesawyd y newidiadau hyn i gyd a byddant yn cynyddu'r defnydd, y potensial buddsoddi a'r gwerth am arian i'n defnyddwyr ac yn cefnogi economi dwristiaeth ehangach Langland.

Cwblhawyd y parc sglefrio newydd yn West Cross, a hwyluswyd fel partneriaeth â Chyngor Cymuned y Mwmbwls, hefyd yn ystod y cyfnod ac fe'i hagorwyd mewn pryd ar gyfer hanner tymor mis Chwefror. Mae'r parc yn hynod boblogaidd ac mae eisoes yn ased sylweddol i'r cynnig ar hyd y blaendraeth, gan amrywio atyniad yr ardal i ymwelwyr a sglefrwyr o'r tu allan i'r ardal. Disgwylir i'r atyniad gael ei lansio'n ffurfiol yn y chwarter nesaf pryd y byddwn yn gallu rhannu strategaeth ehangach ar gyfer buddsoddi mewn campau sglefrfyrddio, BMX a threfol yn y cyfnod sy'n arwain at y Gemau Olympaidd 2024.

O dan drefniant tebyg gyda Chymdeithas Gymunedol y Mwmbwls, aeth y datblygiad ym Mharc Underhill rhagddo hefyd, gyda'r adeiledd a'r gwaith mewnol i'r pafiliwn/caffi newydd yn agosáu at y camau olaf. Sicrhawyd cam pellach o'r prosiect hwn, i osod arwyneb 3G pob tywydd maint llawn, hefyd gydag ymrwymiadau ariannu o amrywiol ffynonellau. Mae cyfraniad o £330,000 o Gronfa Adferiad Economaidd y cyngor wedi sicrhau'r datblygiad pwysig hwn ymhellach i dimau, grwpiau a chenedlaethau'r dyfodol lleol. Roedd y £130,000 o'r Gronfa Adferiad Economaidd hefyd wedi galluogi Cyfeillion Parc Coed Gwilym, Clydach, i gwblhau adeilad cymunedol newydd, ynghyd â chamau gwelliannau pellach yn y parc hwn, gan gynnwys gwelliannau penodol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Rhoddwyd £40,000 hefyd i Glwb Pêl-droed Treforys ar gyfer gwelliannau i'r cae a chyfleusterau ar gyfer eu cae cartref, 'The Dingle', i gynnal safonau ar gyfer pêl-droed lefel uchel yn ogystal â llawr gwlad.


Perfformiad yn erbyn Targed

2022/2023





Perfformiad o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol


2022/2023




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBMA1 ⇧<br>Nifer y proseictau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol | COG | | | GWYRDD | Cyrhaeddwyd targed y DP ar gyfer 22/23 |
| | Canlyniad | 23 | 21 | 22 | |
| | Targed | | | 20 | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 23. | 21.00 | 22 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CTT4 ⇧<br>Twristiaeth - cyfanswm effaith economaidd Twristiaeth i Abertawe (£m) | COG | | | | Byddwn yn cael adroddiad STEAM 2022 ddiwedd mis Ebrill 2023 ar gyfer blwyddyn galendr 2022. Hon fydd y flwyddyn "normal" agosaf ers 2019 a chyn COVID. |
| | Canlyniad | 143.09 | 150.49 | Dim Data | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | | |
| | Rhif. | 143.09 | 150.49 | | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC2 ⇧ Canran yr holl geisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir. | COG | | | GWYRDD | |
| | Canlyniad | 100.00% | 94.74% | 95.24% | |
| | Targed | | | 90.00% | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 13 | 18 | 20 | |
| | Enw. | 13 | 19 | 21 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC5 ⇧ Cyfanswm yr arwynebedd llawr masanachol (m2) sydd wedi'l greu y Ddinas ar gyfer creu swyddi | COG | | | GWYRDD | Mae'r 1964 metr sgwâr a gyflawnwyd yn deillio o ddarparu 5 cynllun wedi'u cwblhau yn y flwyddyn |
| | Canlyniad | 2056. | 480 | 1964 | |
| | Targed | | | 440 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 2056 | 480 | 1964 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC6 ⇧<br>Crewyd nifer o unedau tai Newydd yng Nghanol Dinas Abertawe o ganlyniad I gyllid y Rhaglen Targedau Buddsoddiad mewn Adfywio | COG | | | GWYRDD | Mae'r 25 uned a gyflawnwyd yn deillio o gwblhau dau gynllun gan gynnwys 19 uned a ddarparwyd ar Ffordd y Brenin |
| | Canlyniad | 70 | 4 | 25 | |
| | Targed | | | 25 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 70 | 4 | 25 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC7 ⇩<br>Amserlen gyfartalog Chwiladau Prisiannau Tir a gwblhawyd yb ystod y cyfnod | COG | | | GWYRDD | |
| | Canlyniad | 3.59 | 4.62 | 1.81 | |
| | Targed | | | 10 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 3.59 | 4.62 | 1.81 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EP28 ⇧<br>Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos | COG | | | OREN | Er bod y ffigur yn dangos tuedd ar i lawr ar y llynedd, penderfynwyd ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau sydd wedi cymryd dros 8 wythnos i benderfynu arnynt o fewn amserlenni a gytunwyd gan yr ymgeisydd neu mae'r amserlen ar gyfer penderfynu wedi'i chynyddu'n awtomatig yn sgil derbyn cynlluniau diwygiedig. Penderfynwyd ar 96% o'r ceisiadau dros y flwyddyn o fewn amserlenni cytunedig (targed LlC o 80%) |
|  | Canlyniad | 82.87 | 80.55% | 77.83% | |
| | Targed | | | 80.00% | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 1369 | 1723 | 1597 | |
| | Enw. | 1652 | 2139 | 2052 | |
| ESD1 ⇧<br>Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir neu'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad) | COG | | | GWYRDD | Pennir y gwerth gan y rhaglen sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. |
|  | Canlyniad | 72.0 | 47.5 | 21.6 | |
| | Targed | | | 21.53 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 72.0 | 47.5 | 21.6 | |
| | Enw. | | | | |

Mae'r cynllun corfforaethol yn nodi ymrwymiad y cyngor i Drechu Tlodi er mwyn sicrhau bod pob person yn Abertawe yn gallu cyflawni'i botensial. Er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwn mae'r Strategaeth Trechu Tlodi corfforaethol yn sicrhau bod Trechu Tlodi'n fusnes i bawb.

1. Effaith yr argyfwng costau byw

Mae effeithiau economaidd pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw yn parhau i gael effaith sylweddol ar y rheini sydd eisoes yn profi tlodi ac yn gyrru'r rheini sydd mewn perygl o dlodi, i dlodi. Mae adroddiad 'Snapshot of Poverty in Winter 2023' Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at y ffaith nad oes gan fwy nag un o bob wyth aelwyd yng Nghymru (14%) ddigon ar gyfer yr holl hanfodion naill ai weithiau, yn aml neu bob amser. Mae niferoedd uchel o bobl yn byw heb yr hanfodion, gan gynnwys pedwar o bob deg o bobl yn mynd heb wres yn eu cartrefi ac un o bob pedwar o bobl yn bwyta prydau llai neu'n mynd heb bryd o fwyd yn llwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod dyled yn broblem sylweddol, gyda 28% o bobl yn benthyca arian rhwng Hydref 2022 ac Ionawr 2023 ac 13% mewn ôl-ddyled ar o leiaf un bil. Dywed yr adroddiad nad yw'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb yng Nghymru i'r un graddau. Ymysg y grwpiau yr effeithir yn fwyaf arwyddocaol arnynt mae:

- Pobl sy'n derbyn budd-daliadau - mae pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol bum gwaith yn fwy tebygol o adrodd eu bod weithiau, yn aml neu bob amser yn ei chael hi'n anodd fforddio'r pethau sylfaenol na’r boblogaeth gyffredinol.

- Pobl anabl y mae eu cyflyrau yn eu cyfyngu llawer - mae dros hanner (52%) ohonynt heb droi'r gwres ymlaen yn eu cartrefi dros y tri mis diwethaf.

- Pobl sy'n rhentu tai gan gymdeithas tai - mae bron hanner (46%) ohonynt yn adrodd eu bod wedi gorfod gwario llai ar fwyd drostynt eu hunain neu wedi mynd heb brydau bwyd yn y tri mis hyd at Ionawr 2023.

- Aelwydydd â phlant - maent tua dwywaith yn fwy tebygol o fod mewn dyled o ganlyniad i’r argyfwng costau byw nag aelwydydd heb blant.

- Oedolion dan 65 oed - maent ddwywaith yn fwy tebygol o adrodd bod eu haelwyd weithiau, yn aml neu bob amser yn ei chael hi'n anodd fforddio’r pethau sylfaenol nag aelwydydd dros 65 oed.

- Gofalwyr di-dâl - maent yn llawer mwy tebygol o fod wedi benthyca arian rhwng mis Hydref a mis Ionawr na phobl nad ydynt yn ofalwyr.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar iechyd pobl:

- Mae bron hanner y bobl yng Nghymru (48%) yn dweud bod eu sefyllfa ariannol yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl.

- Mae tri o bob deg yn dweud bod eu sefyllfa ariannol wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd corfforol.

Lansiwyd gwe-dudalen Costau Byw newydd ym mis Medi 2022 https://www.abertawe.gov.uk/helpcostaubyw gyda'r dudalen yn cael ei gweld dros 92,000 o weithiau erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

2. Budd-daliadau Lles

Nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yn Abertawe (Dwyrain Abertawe, Gorllewin Abertawe a Gwyr) yw 69,138 (DWP, Chwefror 2023). Nifer y bobl sydd ar fudd-daliadau etifeddiaeth yn Abertawe yw 11,299 (DWP Tachwedd 2022). Bydd pobl ar fudd-daliadau etifeddiaeth (Credyd Treth Plant / Budd-dal Tai / Cymhorthdal Incwm / Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm / Credyd Treth Gwaith) yn mudo i Gredyd Cynhwysol erbyn diwedd 2026.

Adroddir am y cam i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau Diwygio Lles, gan gynnwys cefnogi pobl i hawlio'r budd-daliadau llawn y mae ganddynt hawl iddynt fel eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu hincwm, drwy swm y budd-daliadau lles a godir drwy sicrhau hawliau a hawliadau gan y Tîm Hawliau Lles. Cyfanswm y budd-daliadau a sicrhawyd yn ystod y pedwerydd chwarter 22/23 oedd £610,006.60. Mae effaith barhaus Diwygio Lles yn golygu bod swm yr incwm o fudd-daliadau y mae pobl yn gymwys i'w gael yn cael ei leihau, fodd bynnag, mae gwaith y tîm yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu'n well rhag sancsiynau budd-daliadau ac mae'n atal incwm pobl rhag gostwng ymhellach. Ymatebodd y tîm i 340 o ymholiadau am fudd-daliadau a hyfforddwyd 103 o weithwyr cefnogi ganddynt y chwarter hwn.  Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, mae'r Tîm Hawliau Lles wedi codi £1,549,693 mewn budd-daliadau lles, wedi mynd i'r afael â gwerth £219,963 o ddyled ac wedi hyfforddi 247 o weithwyr cefnogi.

3. Cefnogaeth ar gyfer cyflogadwyedd

Nifer y bobl sy'n cael gwaith drwy Gymorth Cyflogadwyedd erbyn diwedd y flwyddyn hon yw 391. Mae hyn yn cwmpasu'r canlyniadau a gyflawnir gan y rhaglenni canlynol; Abertawe'n Gweithio; Cymunedau am Waith; Cymunedau am Waith a Mwy, Gweithffyrdd a'r Warant i Bobl Ifanc. Mae'r timau wedi rhagori ar y targed ar gyfer y cyfnod; mae hyn hefyd gyda thîm llai yn ystod y flwyddyn ariannol 22-23. O ganlyniad i'r gefnogaeth drwy'r rhaglenni hyn, helpwyd preswylwyr 16+ oed i gael mynediad at gyflogaeth, addysg a hyfforddiant, yn ogystal â help i bobl oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth drwy gymorth cyflogadwyedd cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae 3,295 o ddinasyddion wedi cael gafael ar gefnogaeth cyflogaeth drwy un pwynt mynediad ac wedi'u cyfeirio at gefnogaeth briodol. Cyflwynwyd dros 30 o ddiwrnodau recriwtio sector-benodol i gyflogwyr ac i ddarparu gwybodaeth a chyngor gan Arsyllfa Cyflogaeth Ewrop a'r Tîm Ymgysylltu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a llenwyd dros 800 o swyddi gwag. Cefnogom y gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r cynllun aml-leoliad, amlddisgyblaeth cyntaf gyda Bwrdd Iechyd Bae Abertawe gyda 50 o leoliadau ar gael. Mae cylchlythyrau wedi'u hanfon drwy gydol y flwyddyn i roi gwybod i breswylwyr am y gefnogaeth a gynigir gan y timau Cyflogadwyedd, Dysgu Gydol Oes a Chynhwysiant Ariannol/Budd-daliadau Lles. Mae Cynllun Chromebook TGCh yn parhau i gynnig cefnogaeth i gyfranogwyr, ar gyfer hyfforddiant, chwilio am swyddi, etc.  Mae 98 o gyfranogwyr wedi defnyddio'r Chromebooks hyd yn hyn, ac adroddir bod 52 o unigolion wedi dod o hyd i waith.

4.Gostyngiad Treth y Cyngor (GTC) a Budd-dal Tai (BT)

Mae dangosyddion perfformiad amser cyfartalog GTC a BT ar gyfer prosesu hawliadau newydd wedi gostwng o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r cynnydd yn yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd ar gyfer hawliadau BT/GTC yn adlewyrchu nifer o faterion gan gynnwys symud ceisiadau mwy syml am gymorth ariannol gyda rhent draw i Gredyd Cynhwysol. Y ceisiadau hynny sy'n aros gyda'r adran Budd-dal Tai yw'r achosion mwy cymhleth, yn enwedig y rheini ar gyfer llety â chymorth lle mae'n rhaid ystyried y taliadau rhent yn fanwl. Mae'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau yn parhau i reoli grantiau ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd mae'n rheoli dau grant gan Lywodraeth y DU wrth gwblhau dau o gynlluniau blaenorol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn parhau i effeithio ar amserau prosesu er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud mewn perthynas â hawliadau newydd am Fudd-dal Tai ac rydym yn parhau i archwilio pa welliannau pellach y gellid eu cyflawni o fewn ein hadnoddau presennol.

5. Tai


Mae'r cyngor, ynghyd â phartneriaid yn y sector tai ac elusennau cymorth, wedi parhau i fynd i'r afael â digartrefedd yn Abertawe. Mae llawer o bobl wedi cael cymorth i ddod o hyd i le i fyw a symud ymlaen o lety dros dro brys i gartrefi tymor hwy. Gostyngodd canlyniad Chwarter 4 ar gyfer y nifer cyfartalog o ddiwrnodau a dreuliwyd gan deuluoedd digartref gyda phlant mewn llety Gwely a Brecwast o'i gymharu â 21/22 ond yn gyffredinol, cynyddodd y canlyniad blynyddol oherwydd y pwysau parhaus ar lety dros dro. Mae nifer y ceisiadau digartrefedd yn parhau i gynyddu ac mae gennym niferoedd digynsail o aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro. Mae prisiau tai sy'n codi a beichiau ychwanegol y Ddeddf Rhentu Cartrefi wedi arwain at landlordiaid yn gadael y farchnad neu'n codi eu rhenti. Mae ffactorau allanol fel Rhyfel Wcráin hefyd wedi effeithio ar nifer y teuluoedd sydd ag angen llety dros dro. O ganlyniad, mae mwy o deuluoedd wedi bod ag angen llety dros dro ac yn aros yn hwy am opsiynau symud ymlaen addas.


6. Sgiliau a Chymwysterau

Nifer y cymwysterau achrededig a enillwyd gan oedolion gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol yw 701. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth rhwng Dysgu Gydol Oes, Rhaglenni Cyflogadwyedd, ac mae partneriaid yn parhau i gynnig hyfforddiant a chymwysterau achrededig i gyfranogwyr er mwyn iddynt gael cyfleoedd cyflogaeth. Nifer y cyrsiau ar gyfer pob tymor o'r flwyddyn academaidd hon hyd yn hyn; Hydref – 77, Gwanwyn - 76, Haf - 70. Hyd yn hyn mae 1,720 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyfer dosbarthiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a'r Tîm Cyflogadwyedd wedi bod yn gweithio'n agos i ddatblygu a darparu Academi Hunangyflogaeth ar gyfer holl breswylwyr Abertawe, a bydd yn dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd yn 2022/23.


7. Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe, Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe, y Grwp Llywio Cynhwysiad Ariannol a Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Mae'r rhwydweithiau hyn yn darparu cyfleoedd i rannu arfer da, gwybodaeth, tueddiadau, newidiadau i wasanaethau a chyfleoedd newydd, gan annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Cynhaliwyd digwyddiad lansio Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe ym mis Hydref 2022 ac mae cyfarfodydd y Comisiwn bellach ar y gweill. Yn ystod chwarter 4, dyfarnwyd £97,000 o gyllid Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy i 'Bwyd Abertawe', a gynhelir gan Ganolfan yr Amgylchedd. Sicrhawyd £83,831 o gyllid Canolfannau Clud ym mis Tachwedd 2022. Parhaodd cyfeirlyfr ar-lein Lleoedd Llesol Abertawe i dyfu yn ystod Chwarter 4 gyda chyfanswm o 94 o leoedd wedi'u rhestru. Mae'r Tîm Datblygu Trechu Tlodi wedi gweinyddu cyfanswm o £503,188 o gyllid grant allanol i fynd i'r afael â thlodi yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, gan gynnwys i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd, tanwydd a mislif yn ogystal â mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Dyfarnwyd cyfanswm o 266 o grantiau i sefydliadau a gwasanaethau yn Abertawe.



Perfformiad yn erbyn Targed
2022/2023
Dim COG
3
GWYRDD
8
COCH
3




Perfformiad o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2022/2023
DIRYWIO
6
GWELLA
8

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| HBCT01a ⇩ Cyflymder prosesu Budd-dal Tai: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau newydd. | COG | | | COCH | Mae gwneud gwaith ychwanegol ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, colli staff profiadol i adrannau eraill a throsglwyddo hawliadau Budd-dal Tai mwy sylfaenol i Gredyd Cynhwysol wedi cael effaith ar y gwasanaeth. Cafwyd cynnydd disgwyliedig mewn amserau prosesu, er nad oedd yn ddymunol. Cyflwynwyd rhai mesurau gweithdrefnol er mwyn lliniaru'r mater ac mae rhai aelodau o staff newydd wedi cwblhau eu hyfforddiant yn ddiweddar, er y bydd yn cymryd peth amser nes y byddant yn gallu prosesu hawliadau mor gyflym â'r staff profiadol y mae'r adran wedi'u colli. |
| | Canlyniad | 19.3 | 23.5 | 35.3 | |
| | Targed | | | 28 | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 42270 | 44752 | 74303 | |
| | Enw. | 2188 | 1904 | 2101 | |






| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| HBCT01b ⇩ Cyflymder prosesu Budd-dal Tai: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hysbysiadau o newid mewn amgylchiadau | COG | | | GWYRDD | Mae gwneud gwaith ychwanegol ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, colli staff profiadol i adrannau eraill a throsglwyddo hawliadau Budd-dal Tai mwy sylfaenol i Gredyd Cynhwysol wedi cael effaith ar y gwasanaeth. Cafwyd cynnydd disgwyliedig mewn amserau prosesu, er nad oedd yn ddymunol. Mae hyn wedi cael ei liniaru gan awtomeiddio'r broses o drin rhai o hysbysiadau newidiadau mewn amgylchiadau yr AGPh, felly ystyrir bod cynnydd bach mewn amserau prosesu yn rhesymol ac yn dderbyniol ac i'w ddisgwyl. |
| | Canlyniad | 3.5 | 3.8 | 4.6 | |
| | Targed | | | 6 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 96602 | 107804 | 123112 | |
| | Enw. | 26877 | 28096 | 26583 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| HBCT02a ⇩<br>Cyflymder prosesu Gostyngiad Treth y Cyngor: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau newydd | COG | | | COCH | Mae ailgyfeirio staff i dasgau eraill a cholli staff prosesu profiadol wedi arwain at gynnydd mewn amserau prosesu. |
| | Canlyniad | 25.1 | 26.9 | 37.9 | |
|  | Targed | | | 31 | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 214233 | 180229 | 230009 | |
| | Enw. | 8532 | 6699 | 6061 | |
| HBCT02b ⇩<br>Cyflymder prosesu Gostyngiad Treth y Cyngor: Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hysbysiadau o newid mewn amgylchiadau | COG | | | GWYRDD | Mae defnydd cynyddol o awtomeiddio er mwyn rheoli newidiadau mewn amgylchiadau wedi gwella perfformiad |
| | Canlyniad | 5.6 | 3.8 | 2.4 | |
|  | Targed | | | 5 | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 417057 | 321772 | 173966 | |
| | Enw. | 75094 | 83476 | 72512 | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| HSG16a ⇧<br>Cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarpenir yr flwyddyn gan yr awdurnod lleol | COG | | | GWYRDD | |
| | Canlyniad | 44 | 60 | 88 | |
| | Targed | | | 26 | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 44 | 60 | 88 | |
| | Enw. | | | | |
| HSG16b ⇧<br>Cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarpenir yr flwyddyn gan Llandlordiaid Cymdeithasol Cofstredig | COG | | | GWYRDD | |
| | Canlyniad | 203 | 129 | 210 | |
| | Targed | | | 176 | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 203 | 129 | 210 | |
| | Enw. | | | | |







| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| HSG16c ⇧ Cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarpenir yr flwyddyn gan trwy Gyfunebau Adran 106/ffynonellau eraill | COG | | | GWYRDD | |
| | Canlyniad | 46. | 14 | 28 | |
| | Targed | | | 24 | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 46. | 14 | 28 | |
| | Enw. | | | | |
| IT10 ⇧ Nifer y buddiolwyr sydd wedi bod yn rhan o raglen 'Dewch Ar-lein Abertawe' | COG | | | | |
| | Canlyniad | 151. | 196 | 219 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 151 | 196 | 219 | |
| | Enw. | | | | |









| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| PLA009a ⇧ Nifer yr unedau tai fforddiadwy a sichrhawyd twy ganiatad Cynllunio ar gyfer tai Rhentu Cymdeithasol | COG | | | | Ni chyflwynwyd unrhyw sylw |
| | Canlyniad | 198 | 176 | 128 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 198 | 176 | 128 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| PLA009b ⇧ Nifer yr unedau tai fforddiadwy a sichrhawyd twy ganiatad Cynllunio ar gyfer tai dailiadaeth ganolradd | COG | | | | Ni chyflwynwyd unrhyw sylw |
| | Canlyniad | 75 | 78 | 21 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 75 | 78 | 21 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV05 ⇧ Nifer y budd-daliadau ychwanegol a gynyddwyd i'r eithaf ar gyfer pobl sydd â hawl i hawlio bob blwyddyn drwy gyfranogiad y Tîm Hawliau Lles | COG | | | GWYRDD | Cafwyd cynnydd yn y swm o arian a godwyd drwy sicrhau hawliau a hawliadau. |
|  | Canlyniad | 1418849.97 | 1139249.25 | 1549693.90 | |
| | Targed | | | 750000 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 1418849.97 | 1139249.25 | 1549693.90 | |
| | Enw. | | | | |
| POV06 ⇩ Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd yr holl deuluoedd digartref â phlant mewn llety gwely a brecwast | COG | | | COCH | Mae nifer y ceisiadau digartrefedd yn parhau i gynyddu ac mae gennym niferoedd digynsail o aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro. Mae prisiau tai sy'n codi a beichiau ychwanegol y Ddeddf Rhentu Cartrefi wedi arwain at landlordiaid yn gadael y farchnad neu'n codi eu rhenti. Mae ffactorau allanol fel Rhyfel Wcráin wedi effeithio ar nifer y teuluoedd sydd ag angen llety dros dro. O ganlyniad, mae mwy o deuluoedd wedi bod ag angen llety dros dro ac yn aros yn hwy am opsiynau symud ymlaen addas. |
|  | Canlyniad | 1.75 | 10.38 | 13.13 | |
| | Targed | | | 7 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 7 | 135 | 420 | |
| | Enw. | 4 | 13 | 32 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV10 ⇧<br>Nifer y bobl sy'n cael gwaith drwy Gymorth Cyflogadwyedd | COG | | | GWYRDD | Mae hyn wedi gwella ers y llynedd oherwydd y ffyrdd newydd o weithio a'r gwaith recriwtio cyflogwyr a gyflawnwyd drwy ein hwb canolog, a'r cynnydd mewn cysylltiadau â chyflogwyr. Mae gweithgarwch ymgysylltu hefyd wedi cynyddu eleni sy'n golygu bod y niferoedd uchaf erioed yn defnyddio'r cynnig gwasanaeth. |
| | Canlyniad | 453 | 481 | 875 | |
| | Targed | | | 500 | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 453 | 481 | 875 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV11 ⇧<br>Nifer y cymwysterau ardystiedig a gyflawnwyd yr Awdurdod lleol | COG | | | GWYRDD | Mae'r cynnig hyfforddiant i'r holl bartneriaid a phreswylwyr wedi bod yn fwy amrywiol nag erioed ac mae paru hyfforddiant ag anghenion recriwtio sectorau wedi chwarae rhan fawr yn hyn. |
| | Canlyniad | 450 | 620 | 1193 | |
| | Targed | | | 580 | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 450 | 620 | 1193 | |
| | Enw. | | | | |



Yn chwarter olaf 2022-23 cymeradwyodd y cyngor y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-28, sef Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy, y gyllideb ar gyfer 2023-24 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2023-27. Cymeradwyodd y cyngor hefyd Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar gyfer 2023-28, sy'n darparu map clir o'r llwybr ar gyfer y bartneriaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y chwarter, datblygwyd achosion busnes ar gyfer buddsoddi mewn trawsnewid digidol a'r gweithlu, a dechreuodd y cynllun trawsnewid corfforaethol arfaethedig, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol, ddatblygu'n dda. Cymeradwywyd y dogfennau hyn gan y byrddau llywodraethu perthnasol i'w cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo ym mis Ebrill.

Yn ystod yr un cyfnod daeth yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddigidol i ben a chafodd y strategaeth ei chwblhau eto i'w chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ebrill.

O ran agenda ddigidol y cyngor, datblygodd y prosiect Oracle Fusion ac ar 31 Mawrth 2023 roedd y system yn barod i fynd yn fyw'r diwrnod canlynol, yn unol â chynllun y prosiect.

Yn y pedwerydd chwarter roedd nifer y taliadau ar-lein a dderbyniwyd drwy wefan y cyngor yn dilyn y patrwm tymhorol rheolaidd o fod ychydig yn is na'r chwarter blaenorol, ond yn sylweddol uwch (h.y. 3,200 yn fwy o daliadau) na'r un chwarter y llynedd. Mae ffurflenni ar-lein sy'n gysylltiedig â'r swyddfa gefn wedi parhau i gynyddu, gyda dros 2,000 yn fwy o drafodion ar-lein ar gyfer systemau swyddfa gefn nac yn ystod yr un chwarter y llynedd. Bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol wrth i fwy o wasanaethau ar-lein gael eu hychwanegu o fis Ebrill ymlaen.


Ni chafwyd unrhyw doriadau data difrifol yn ystod y chwarter gan fod y risg i wrthrychau'r data yn isel. Yn gyfan gwbl, adroddwyd am 23 achos o doriadau data i'n panel Toriad ac nid oedd yr un ohonynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer atgyfeirio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Yng nghanolfan alwadau gorfforaethol y cyngor, cafwyd cynnydd yn nifer y galwadau a adawyd i 27.5%, o gymharu â 26.18% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd salwch staff drwy gydol y flwyddyn a chynnydd sylweddol mewn ceisiadau am wasanaeth drwy e-bost gan breswylwyr. Cynyddodd nifer yr e-byst a atebwyd i 26,341 o gymharu â 18,548 ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Mae recriwtio'n mynd rhagddo i wella perfformiad yn y flwyddyn i ddod ynghyd â chynlluniau a phrosiectau fel rhan o'r rhaglen drawsnewid newydd.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, cyfanswm y diwrnodau/sifftiau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch oedd 12.28 diwrnod, a oedd yn uwch na'n targed o 10 niwrnod, ond a oedd yn welliant ar y 12.66 diwrnod a gollwyd fesul CALl yn 2021-22. Mae disgwyl i hyn ddigwydd wrth i ni ddod allan o'r pandemig a gweld lefelau is o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19. Mae gwaith wedi dechrau ar adolygiad o'n dull o reoli absenoldeb a darpariaeth iechyd galwedigaethol sy'n ceisio archwilio ffyrdd o leihau lefelau absenoldeb ymhellach, tuag at ein targed o 10 niwrnod fesul CALl.


Perfformiad yn erbyn Targed

2022/2023





Perfformiad o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol


2022/2023




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR002 ⇩<br>Nifer y diwrnodau gwaith wedi colli oherwydd salwch fesul gweithiwr | COG | | | COCH | Nodyn gan y Tîm Perfformiad Corfforaethol – Ansawdd data yn cael ei adolygu. Er bod yr alldro o 12.28 diwrnod a gollwyd fesul CALI ar gyfer 2022/23 yn uwch na'r targed, cafwyd gwelliant ar y flwyddyn 2021/22 pan roedd yr alldro'n dangos 12.66 diwrnod a gollwyd fesul CALI. Mae disgwyl i hyn ddigwydd wrth i ni ddod allan o'r pandemig a gweld lefelau is o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19. Mae gwaith wedi dechrau ar adolygiac o'n dull o reoli absenoldeb a darpariaeth iechyd galwedigaethol sy' n ceisio archwilio ffyrdd o leihau lefelau absenoldeb ymhellach er mwyn cyrraedd ein targed o uchafswm o 10 niwrnod y CALI. |
| | Canlyniad | 9.23 | 12.66 | 12.28 | |
| | Targed | | | 10.00 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 82955.96 | 116913.60 | 116628.28 | |
| | Enw. | 8984.92 | 9237.28 | 9500.44 | |






| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CUST2a ⇧<br>Nifer y taliadau ar-lein a dderbyniwyd trwy wefannau Dinas a Sir Abertawe | COG | | | GWYRDD | Roedd dros 3,000 yn fwy o daliadau ar-lein nag yn y flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i gyflwyno mwy o wasanaethau a digwyddiadau y codir tâl amdanynt wedi'r pandemig. |
| | Canlyniad | 106275 | 123921 | 126952 | |
| | Targed | | | 124400 | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 106275 | 123921 | 126952 | |
| | Enw. | | | | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| CUST2b ⇧<br>Nifer y ffurflenni a gwblhawyd ar-lein ar gyfer prosesau wedi'u hawtomeiddio'n llawn | COG | | | GWYRDD | Mae poblogrwydd ffurflenni ar-lein sy'n gysylltiedig â'r swyddfa gefn wedi parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda bron 2,000 yn fwy o drafodion ar-lein drwy systemau swyddfa gefn na'r llynedd (yn bennaf ceisiadau rheoli gwastraff fel bagiau/ sachau a chasgliadau gwastraff swmpus). Bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol wrth i fwy o wasanaethau ar-lein gael eu hychwanegu o fis Ebrill ymlaen. |
| <br> | Canlyniad | 68312 | 42642 | 43678 | |
| | Targed | | | 41800 | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 68312 | 42642 | 43678 | |
| | Enw. | | | | |
| PROC12 ⇩<br>Nifer yr achosion o fynediad diawdurdod at ddata sydd wedi arwain at orfdaeth neu gosb ariannol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | COG | | | GWYRDD | Mae perfformiad ar y DPA hwn yn parhau'n gyson ac yn parhau i gael ei fonitro drwy'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth |
| | Canlyniad | 0 | 0 | 0 | |
| GRAFF HEB EI ARDDGANGOS<br>Mai pob canlyniad yn sero | Targed | | | 0 | |
| | Tuedd | SEFYDLOG | SEFYDLOG | SEFYDLOG | |
| | Rhif. | 0 | 0. | 0 | |
| | Enw. | | | | |

Mae'r maes gwasanaeth eisoes wedi rhoi'r holl gamau gweithredu o fewn y Strategaeth ar waith, rhaid cynnal y camau gweithredu hyn i sicrhau bod cynnydd mewn perfformiad yn cael ei gynnal. Yn 2023/24 bydd y gwasanaeth yn gweithio ar y canlynol: modelu ar gyfer strategaethau gwastraff yn y dyfodol; paratoi ar gyfer / rhoi newidiadau ar waith sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth gwastraff annomestig newydd Llywodraeth Cymru a datblygu cynllun gweithredu i liniaru pwysau cyllidebol heb eu hariannu.



Perfformiad yn erbyn Targed
2022/2023
Dim COG
2
GWYRDD
2


Perfformiad o'i gymharu a'r Flwyddyn Flaenorol
2022/2023
DIRYWIO
2
GWELLA
2


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| EEF002 ⇧<br>Mesuriad o'r gostyngiad carbon ar draws portfolio cyfan adeiladau Cyhoeddus Cyngor Abertawe (%) | COG | | | | Mae canlyniadau'n dangos cynnydd mewn carbon o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o ynni mewn adeiladau wrth i staff ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn COVID. |
| | Canlyniad | 6.12% | 12.41% | -4.36% | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 1147 | 2328 | -716 | |
| | Enw. | 18757 | 18757 | 16429 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| NAT001 ⇧<br>Nifer y coed a blannwyd gan yr is-adran Parciau yn ystod y flwyddyn | COG | | | | Rydym wedi plannu'r holl goed sydd gennym a gallwn eu hariannu gyda'r cyllid cyfyngedig o fewn Parciau, ynghyd â'r coed a ddarperir gan y tîm cadwraeth mewn Cynllunio. Byddai angen cynnwys coed sy'n cael eu plannu drwy bob dull arall e.e. Cynlluniau Teithio Llesol, datblygiadau eraill etc. wrth ystyried targed ehangach y cyngor ar gyfer plannu coed. |
| | Canlyniad | 232 | 512 | 188 | |
| | Targed | | | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 232 | 512 | 188 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| NAT003 ⇧<br>Canran y Rhagolygon Ansawdd Dwr Ymdrochi a arddangosir ar yr arwydd electronig cyhoeddus | COG | | | GWYRDD | |
| | Canlyniad | 90.6% | 96.74% | 98.12% | |
| | Targed | | | 90.00% | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1098 | 1572 | 1773 | |
| | Enw. | 1212 | 1625 | 1807 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2020/2021 | 2021/2022 | 2022/2023 | Sylw -2022/2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| WMT009b ⇧<br>Canran y gwastraff dinesig a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi i gael ei ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | COG | | | GWYRDD | Mae perfformiad ar 71.9% ymhell ar flaen y targed, a dylid nodi bod y ffigurau hyn ar gyfer y cyfnod Chwarter 4 2021/22 a Chwarteri 1, 2, a 3 2022/23 gan na fydd ffigurau ar gyfer Chwarter 4 2022/23 ar gael tan ddechrau mis Mai. Mae'r cynnydd mewn perfformiad o ganlyniad i roi'r Strategaeth Gwastraff newydd ar waith, gan gynnwys dargyfeirio gwastraff gweddilliol o safleoedd tirlenwi i gyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni. |
| | Canlyniad | 63.95% | 63.68% | 71.86% | |
| | Targed | | | 64.00% | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 70191.59 | 73080.84 | 77170.90 | |
| | Enw. | 109765.58 | 114763.82 | 107386.71 | |

